# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Dyddiad: | 27 Mehefin 2016 |
| | | Rhif Union: | 01824 712589 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, DYDD GWENER, 1 GORFFENNAF 2016** am **10.00 am** yn yr **YSTAFELL CABINET, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes sydd wedi ei nodi i'w ystyried yn y cyfarfod yma.

**3 MATERION BRYS YN ÔL CYTUNDEB Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf llywodraeth Leol, 1972

**4 PENODI IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 3 - 8)

I dderbyn cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar yr 22 Ionawr 2016 (copi ynghlwm).

**6 HYFFORDDIANT A DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG** (Tudalennau 9 - 48)

Ystyried adroddiad gan yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai (copi ynghlwm) mewn perthynas â hyfforddiant a datblygu ar gyfer aelodau etholedig.

**7 PRESENOLDEB AELODAU** (Tudalennau 49 - 52)

Ystyried adroddiad gan yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai (copi ynghlwm) i alluogi'r Pwyllgor ystyried a rhoi sylwadau ar yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer y trefniadau ar gyfer pwyllgorau.

**8 COFNODION ARDDULL SIR DDINBYCH** (Tudalennau 53 - 56)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) i'r Pwyllgor ystyried sylwadau ar yr arddull a'r cynnwys priodol ar gyfer cofnodi cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor a phwyllgorau.

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Ystyried adroddiad ar lafar gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Joan Butterfield
Bill Cowie
Stuart Davies
Martyn Holland
Barry Mellor
Bob Murray
Merfyn Parry
Arwel Roberts
Cefyn Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd yn NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Gwener, 22 Ionawr 2016 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Bill Cowie a/ac Barry Mellor (Cadeirydd).

Roedd y Cynghorydd M.Ll. Davies yno hefyd fel arsylwr.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (SP), Cydlynydd Archwilio (RE), Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (SC) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

Cyfeiriodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (RhGD) at y cyfansoddion ac eglurodd nad oedd gan y Pwyllgor gworwm. Cytunodd yr aelodau y dylid parhau â'r pwyllgor ar sail anffurfiol ac y dylid cadarnhau unrhyw gam gweithredu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ei fod yn teimlo y byddai presenoldeb Aelodau yn y cyfarfod yn fwy cyffredin wrth i nifer y cyfarfodydd gynyddu a chael eu cynnal yn fwy rheolaidd.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Joan Butterfield, Stuart Davies, Martyn Holland, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Arwel Roberts a/ac Cefyn Williams.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod.

### 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

### 4 COFNODION

(a) Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2014 i'w cymeradwyo.

Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd na fyddai'r cofnodion yn cael eu cadarnhau yn y cyfarfod hwn oherwydd y cworwm yn y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD****:- yn amodol ar eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf, derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.*

(b) Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2015 i'w cymeradwyo.

Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd na fyddai'r cofnodion yn cael eu cadarnhau yn y cyfarfod hwn oherwydd y cworwm yn y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD****:- yn amodol ar eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf, derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.*

**5 DATBLYGU ARCHWILIO YN SIR DDINBYCH**

Roedd adroddiad ar y cyd gan Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd (RhGD) a Chydlynydd Archwilio (CA), a oedd yn manylu ar y cynnydd a wnaed o ran datblygu swyddogaeth archwilio'r Cyngor i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol a'i wella yn unol â gweledigaeth rheolyddion er mwyn craffu ar draws Cymru, wedi cael ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd y RhGD yr adroddiad ac eglurodd fod y Pwyllgor eisoes wedi ystyried adroddiad ar sut i ddatblygu archwilio yn Sir Ddinbych er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n fwy effeithlon ac effeithiol, oedd yn canolbwyntio ar gefnogi cyflawni'r Cynllun Corfforaethol ac ychwanegu gwerth at y broses o wneud penderfyniadau. Fe ddarparwyd dolen i'r adroddiad. Nod y cynigion a gyflwynwyd oedd mynd i'r afael ag argymhellion a wnaed yn adroddiad cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ym mis Mai 2014 ar archwilio yng Nghymru, Craffu Da? Cwestiwn da!

Mewn ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru fe luniwyd Cynllun Gweithredu, Atodiad 1, i fynd i'r afael ag argymhellion y rheoleiddwyr, ac i symud ymlaen wrth roi'r arferion da a arsylwyd gan Aelodau Archwilio yn ystod ymweliadau cyfoedion a thrafodaethau a ffurfiodd rhan o broses adolygu SAC, ar waith.

Nododd argymhelliad 7 o'r adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, y dylai swyddogaeth archwilio pob Awdurdod Lleol "ymgymryd â hunan-arfarniad rheolaidd o archwilio gan ddefnyddio'r 'canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu effeithiol llywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith y Swyddogion Craffu Cymru". Ym mis Tachwedd 2014, cefnogodd yr Aelodau mabwysiadu'r 'nodweddion'. Fel rhan o'r broses o baratoi ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Archwilio y llynedd, cynhaliwyd hunanwerthusiad ar sail y nodweddion uchod. Serch hynny, oherwydd y gyfradd ymateb isel i'r holiadur hunan-arfarnu, ni chafodd y canfyddiadau eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, oherwydd teimlwyd nad oedd modd i'r casgliadau fod yn rhai ansoddol. Roedd Atodiad 2 yn cynnwys canlyniadau'r ymarferiad hunan arfarnu, ac er gwaethaf y gyfradd dychwelyd isel, fe nodwyd rhai themâu cyson ar gyfer gwella yn Atodiad 2.

Yn ystod yr hydref 2016, roedd y Cyngor fod yn destun Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru. O ganlyniad, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cynnydd a wnaed hyd yn hyn wrth ddatblygu archwilio yn Sir Ddinbych, nodi meysydd i'w

gwella ymhellach ac argymell y dylai'r holl Gynghorwyr Sir, Aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion gymryd rhan yn yr ymarferiad hunan-arfarnu archwilio nesaf er mwyn i'r swyddogaeth gael ei gwerthuso'n iawn ac o ganlyniad, ei gryfhau ymhellach.

Eglurodd y Cydlynydd Archwilio fod gan swyddogaeth archwilio aneffeithiol y potensial i achosi i'r Cyngor beidio cyflawni ei Gynllun Corfforaethol, neu bod y Cabinet neu swyddogion ddim yn cael eu herio a ddim yn cael eu dwyn i gyfrif am eu penderfyniadau. Gallai hyn arwain at adroddiadau rheoleiddio anffafriol ac hyd yn oed ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru. Gallai sicrhau bod gan yr Awdurdod swyddogaeth archwilio effeithiol a allai gael ei ddatblygu i ddiwallu gofynion a heriau newydd liniau’r risg o adroddiadau anffafriol neu ymyrraeth. Dylai swyddogaeth archwilio gadarn ac effeithiol hefyd arwain at benderfyniadau gwell yn seiliedig ar dystiolaeth.

Eglurodd y RhGD ei fod yn teimlo bod yr Awdurdod mewn sefyllfa i ddangos bod newidiadau wedi cael eu rhoi ar waith yn dilyn cyflwyno'r Cynllun Gweithredu, gan gynnwys:-

- Mewnbwn ac archwilio’r Cabinet.
- Aelod Arweiniol yn bresennol ym Mhwyllgorau Archwilio, pan fo angen.
- Arweinydd yn bresennol yng nghyfarfodydd Grŵp Archwilio Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion pan fo angen.
- Adolygiad o weithdrefnau dethol ar gyfer eitemau i'w cyflwyno i archwilio.
- Amlinelliad o waith y Grwpiau Tasg a Gorffen.
- Cynorthwyo gyda datblygiad y trefniadau ar gyfer GwE
- Rhoddwyd ystyriaeth i lefel yr adnoddau sydd ar gael i’w harchwilio.
- Ymgysylltu â'r cyhoedd o ran y broses archwilio, a gwe-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor a defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Darparodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd fanylion am y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chyflwyno'r ddarpariaeth gwe-ddarlledu, a pharhad a datblygiad y ddarpariaeth.

Roedd y Cynghorwyr B. Mellor a W.L. Cowie yn teimlo fod presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd wedi cael eu heffeithio gan fod gan rai Cynghorwyr swyddi llawn amser a’r ffaith bod lwfans teithio i Gynghorwyr nad oedd yn Aelodau Pwyllgor, neu oedd heb eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd, wedi cael ei dynnu nôl. Cadarnhaodd y RhGD fod Aelodau wedi gweithredu tynnu taliadau lwfans teithio penodol, gyda'r bwriad o gyflawni arbedion. Fe eglurodd eu bod wedi cysylltu ag Arweinwyr Grŵp mewn perthynas â'r mater, ac y byddai'r meini prawf ar gyfer talu lwfansau teithio yn cael ei adolygu.

Eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd bod cais wedi dod i law gan yr Aelod Arweiniol ar gyfer hyfforddiant, y Cynghorydd B.A. Smith, er mwyn cynnwys eitem fusnes ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar ddarparu hyfforddiant. Mynegodd y Cadeirydd y farn y dylai darpariaeth hyfforddiant Aelodau gynnwys siarad cyhoeddus a hyfforddiant yn y cyfryngau.

Fe soniodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru am y camau a gymerwyd a'r cynnydd a wnaed i ddatblygu archwilio yn Sir Ddinbych. Fe eglurodd bod Awdurdodau Lleol eraill wedi profi’r un meysydd o anawsterau a nodwyd yn ystod y drafodaeth.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD -***

*(i) derbyn yr adroddiad a nodi'r safbwynt;*
*(ii) bod holl Gynghorwyr Sir yn cael eu hannog i lenwi'r holiadur hunanwerthuso pan fo problemau.*

## 6 BIL LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)

Roedd copi o adroddiad gan Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (RhGD), ar y newidiadau a chynigion i ddiwygio fframwaith deddfwriaethol Llywodraeth Leol Cymru, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad ac esboniodd fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn adolygu sut y dylai'r llywodraeth leol yng Nghymru weithredu a gwneud cynigion gan gynnwys deddfwriaeth Papur Gwyn *Grym i Bobl Leol*, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 newydd ac ymgynghoriad drafft Mesur Llywodraeth Leol (Cymru). Eglurodd y RhGD fod yr adroddiad yn crynhoi rhai o'r materion allweddol o'r diwygiadau.

Roedd darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 newydd, a oedd wedi cael ei gymeradwyo ar 25 Tachwedd 2015, yn caniatáu ar gyfer gwaith paratoadol i alluogi rhaglen o uno a diwygio llywodraeth leol a chynnwys darpariaethau ar gyfer uno cynnar gwirfoddol dau neu fwy o Siroedd neu Gynghorau Bwrdeistref Sirol erbyn Ebrill 2018. Roedd y Ddeddf yn diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 o ran Panel Taliadau Annibynnol Cymru, a oedd yn gosod taliadau lwfans ar gyfer Aelodau, ac arolwg o Gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus, yn ogystal â Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 o ran arolygon etholiadol. Mae dolen i Ddeddf 2015 wedi ei chynnwys yn yr adroddiad.

Roedd Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar Fesur drafft Llywodraeth Leol (Cymru), gyda sylwadau i'w dychwelyd erbyn 15 Chwefror, 2016. Amcan y Mesur drafft oedd cwblhau'r rhaglen o uno awdurdodau lleol a nodi fframwaith ddeddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer democratiaeth, atebolrwydd, perfformiad ac elfennau o gyllid awdurdodau lleol. Byddai hefyd yn sefydlu Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus statudol.

Cyfeiriwyd at y diddordeb yn yr uno arfaethedig Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol, a oedd wedi ei nodi yn Rhan 1 o'r Mesur Seneddol. Hyd yn oed heb y cynigion hynny, byddai Rhannau 2 i 8 o'r Mesur arwain at y diwygiad mwyaf arwyddocaol o lywodraeth leol yng Nghymru ers Deddf Llywodraeth Leol 2000, a gyflwynodd y model gweithredol / craffu ar lywodraethu. Roedd Atodiad 1 yn rhoi crynodeb o rai o'r prif bwyntiau. Cafodd dolen i'r dogfennau ymgynghori llawn a chyfarwyddiadau ar sut i ymateb i gynigion Llywodraeth Cymru ei ddarparu.

Darparodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd grynodeb manwl o'r meysydd canlynol a oedd wedi'u cynnwys yn ei Gyflwyniad PowerPoint:-

- Ad-drefnu Llywodraeth Leol
- Dewis Cyngor Sir Ddinbych
- Llinell Amser
- Pwyllgor pontio
- Cyfranogiad y cyhoedd
- Pwyllgor Ardal Cymuned
- Mynediad i Gyfarfodydd
- Cymwysterau etholiadol
- Y Cabinet a'r Prif Weithredwr a Swyddogaethau
- Asedau
- Gwelliannau mewn Llywodraethu
- Cynghorau Cymuned

Darparodd y swyddogion yr ymatebion canlynol i faterion a chwestiynau a godwyd gan yr Aelodau:-

- Mynegwyd pryderon, er bod Llywodraeth Cymru wedi argymell cyflwyno a defnyddio mynychu o bell, nid oeddent wedi mabwysiadu a defnyddio systemau o'r fath. Eglurodd y RhGD fod yna broblemau technegol gyda defnyddio offer o'r fath.
- Amlygodd y Cyng. W.L. Cowie yr agweddau negyddol o gyflwyno hyfforddiant gorfodol ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sy'n ymgymryd â dyletswyddau ar sail wirfoddol.
- Gofynnodd y Cyng. W.L. Cowie effaith penderfyniadau a wnaed yn y dyfodol, o ran Ad-drefnu Llywodraeth Leol, o ran gwaith y gwaith sy’n cael ei wneud sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd nad oedd unrhyw benderfyniad wedi ei wneud mewn perthynas â'r cynlluniau at y dyfodol a'r map a fyddai’n cael ei fabwysiadu. Cyfeiriodd at yr heriau sy'n wynebu'r Awdurdod yn y dyfodol, o ran y penderfyniadau sydd i'w gwneud a'r gwaith sydd i'w wneud gan yr Awdurdodau Cysgodol. Cyfeiriodd y Cydlynydd Archwilio at benderfyniad y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau i gymeradwyo'r gwaith sy'n cael ei wneud, rhwng Cynghorau Sir Ddinbych a Chonwy, i fwrw ymlaen â ffurfio Cyd-fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Eglurodd y gallai unrhyw waith a wneir, a oedd yn gysylltiedig â'r Cynllun Corfforaethol ar y cyd, gael ei ddiwygio i gyd-fynd â chyflwyno unrhyw drefniadau amgen yn y dyfodol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Mynegwyd pryderon ynghylch y posibilrwydd o ddyblygu gwaith, a darpariaeth adnoddau staffio, yn ystod y cyfnod o Gyngor Cysgodol.
- Mynegodd y Cadeirydd bryder, a holodd y rhesymau, dros y methiant i egluro'r ffiniau Awdurdodau Lleol arfaethedig ar gyfer Gogledd Cymru yn y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, diolchodd y Cadeirydd i Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd a’i staff am y wybodaeth a ddarparwyd.

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid derbyn yr adroddiad a nodi’r wybodaeth a roddwyd.*

**7 RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL**

Eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd bod cais wedi dod i law gan yr Aelod Arweiniol ar gyfer hyfforddiant, y Cynghorydd B.A. Smith, ar gyfer cynnwys eitem fusnes am ddarparu hyfforddiant yn rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cadeirydd ynglŷn â'r cynnydd gyda gwaith amddiffynfeydd llifogydd yn ardal y Rhyl, a chan y Cynghorydd M.Ll. Davies ynghylch materion llifogydd a gwaith cynnal a chadw amddiffynfeydd rhag llifogydd yn ardal Rhuthun, cytunwyd y dylai'r materion a amlygwyd gan eu hanfon ymlaen at y Rheolwr Ymgysylltu â'r Gymuned, gyda'r bwriad o gyfleu pryderon a godwyd gyda'r Grwpiau Aelodau Ardal perthnasol.

***PENDERFYNWYD:-***

*(a) cynnwys eitem fusnes ar hyfforddiant yn y rhaglen waith i'r dyfodol i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor, a*
*(b) anfon y pryderon a drafodwyd gan y pwyllgor, o ran materion llifogydd, at y Rheolwr Ymgysylltu â'r Gymuned.*

Daeth y Cyfarfod i ben am 11.25 a.m.

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 1 Gorffennaf 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl:** | Hyfforddiant a Datblygu ar gyfer Aelodau Etholedig |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â hyfforddiant a datblygu ar gyfer aelodau etholedig a'r paratoadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Roedd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys yr eitem hon ar ei raglen gwaith i'r dyfodol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried yr adroddiad ac yn nodi unrhyw feysydd neu faterion y byddai'n hoffi eu gweld yn y ddarpariaeth hyfforddiant a datblygu ar gyfer aelodau etholedig.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Yn dilyn ailstrwythuro mewnol, bu i'r trefniadau cymorth ar gyfer hyfforddiant a datblygu aelodau drosglwyddo i'r tîm Gwasanaethau Democrataidd o fis Ebrill eleni. Y bwriad yw alinio'r gefnogaeth sydd ar gael i aelodau ymgymryd â'u rolau yn agosach, gyda chefnogaeth ar gyfer hyfforddiant a datblygu i ymgymryd â'r rolau hynny. Y Cynghorydd Barbara Smith yw'r aelod arweiniol sy'n gyfrifol am hyfforddi a datblygu aelodau.

<u>Y Rhaglen Gyfredol</u>

4.2 Bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn darparu sesiwn hyfforddi hanner diwrnod ar archwilio effeithiol i'w gynnal ar **ddydd Iau, 14 Gorffennaf** am 2pm yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir.

4.3 Bydd hyfforddiant ar faterion cynllunio yn cael ei ddarparu ar **12 Medi** a **1 Rhagfyr** ac mae dyddiad pellach cyn diwedd mis Gorffennaf yn cael ei ystyried, o bosibl ar brynhawn **28 Gorffennaf**. Mae'r posibilrwydd o gynnal sesiwn ar gyfer materion trwyddedu hefyd yn cael ei ystyried.

4.4 Bydd eitem datblygu ar ddiogelu ar '*learning from Rotherham*' yn cael ei glywed ar Friff y Cyngor ar **14 Tachwedd**.

Strategaeth Arweinyddiaeth a Rhaglen ar gyfer Aelodau

4.5 **Trefnodd y Cynghorydd Barbara Smith, aelod arweiniol ar gyfer hyfforddi aelodau, sesiwn gweithdy ym mis Ebrill ar gyfer aelodau sy'n ymgymryd â rôl 'arweinyddiaeth' o fewn y Cyngor ar hyn o bryd; sef rolau Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor, aelodau Cabinet, cadeiryddion pwyllgorau ac is-gadeiryddion ac arweinwyr grwpiau.** Roedd y gweithdy yn edrych yn rhyngweithiol ar beth yw arweinyddiaeth a sut mae'n berthnasol i rolau aelodau etholedig. Mae'r Cyngor wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth cadarnhaol ac ymddygiadau ymhlith ei reolwyr, ac wedi cynhyrchu strategaeth arweinyddiaeth. Disgwylir i weithgor o gynghorwyr gynhyrchu strategaeth wedi'i deilwra i rolau a chyfrifoldebau aelodau etholedig.

4.6 Fel rhan o Academi Cymru, mae Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) unwaith eto yn gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) i gyflawni'r Rhaglen Arweinyddiaeth ar gyfer Aelodau Etholedig. Caiff y Rhaglen Arweinyddiaeth ei chydnabod gan y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth, corff dyfarnu mwyaf blaenllaw y DU ar gyfer arwain a rheoli, a bydd graddedigion Academi Arweinyddiaeth yn derbyn tystysgrif achrededig.

4.7 Mae'r Rhaglen Arweinyddiaeth yn un lle y gall arweinwyr, a'r rhai mewn swyddi arweinyddiaeth, archwilio'r syniadau diweddaraf ym maes arweinyddiaeth wleidyddol, a chymhwyso eu hunain gyda'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ymateb i'r heriau hyn. Mae darparwyr y Rhaglen yn cynnwys cynghorwyr profiadol, academyddion a chynghorwyr blaenllaw ac ymgynghorwyr arweinyddiaeth. Mae pob awdurdod lleol yn cael cynnig 2 le gyda'r potensial i fanteisio ar unrhyw leoedd dros ben, a chynhelir y Rhaglen fel a ganlyn:

- MODIWL 1: **10 / 11 Medi 2016**
- MODIWL 2: **8 / 9 Hydref 2016**
- MODIWL 3: **29 / 30 Hydref 2016**

Cynlluniau ac Adolygiadau Datblygiad Personol

4.8 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i awdurdod lleol sicrhau y darperir cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'w aelodau a darparu ar gyfer adolygiad blynyddol o anghenion hyfforddi a datblygu pob aelod.

4.9 Mae Adolygiadau Datblygu Personol yn fodd i gynghorydd a'r awdurdod asesu anghenion datblygiad personol y cynghorydd o ran dyheadau'r cynghorydd ac anghenion y gymuned. Dylid nodi nad yw Adolygiadau Datblygu Perfformiad yn arfarniad o berfformiad, ond yn fodd o gefnogi a datblygu aelodau.

4.10 Gofynnir i bob aelod o'r Cyngor a hoffent gael Adolygiadau Datblygu Perfformiad y gellir ei wneud yn ystod yr haf gydag arweinydd eu grŵp neu un o swyddogion y Cyngor, neu'r ddau. Efallai y bydd canlyniadau'r Adolygiadau Datblygu Perfformiad

yn arwain at gynllun arbennig ar gyfer cynghorydd, yn nodi anghenion hyfforddi a datblygu y cytunwyd arnynt.

Hyfforddiant a Datblygu ac Adroddiadau Blynyddol

4.11 Bob blwyddyn, caiff cynghorwyr y cyfle i ddefnyddio adroddiad blynyddol a gyhoeddir i hysbysu etholwyr am eu gwaith, gan gynnwys yr hyfforddiant a'r datblygiad y maent wedi'i wneud. Mae adroddiadau yn seiliedig ar flynyddoedd bwrdeistrefol (Cyngor) felly gall adroddiadau blynyddol mis Mai 2015 i fis Mai 2016 bellach gael eu paratoi a bydd cynghorwyr yn cael eu cynorthwyo i wneud hyn dros yr wythnosau nesaf.

4.12 Dylid nodi bod ymholiadau wedi eu codi ynghylch a allai'r cyhoeddusrwydd a roddir gan adroddiadau blynyddol roi mantais etholiadol annheg i'r cynghorwyr presennol yn ystod blwyddyn etholiad. Mae swyddog Llywodraeth Cymru wedi ymateb drwy ddweud *'er nad yw'n cael ei nodi yn y canllawiau, ystyriwyd "blwyddyn" bob amser yn flwyddyn fwrdeistrefol. Felly, ni ddylai awdurdodau lleol alluogi i adroddiad blynyddol gael ei gyhoeddi yn y cyfnod cyn etholiad. Gallai cynghorwyr a gaiff eu hail-ethol gynhyrchu adroddiad ar 2016/17 tua mis Mehefin neu fis Gorffennaf 2017, i'w gyhoeddi wedyn. Ni fyddai Cynghorwyr sy'n dod i ddiwedd eu cyfnod ym mis Mai 2017 yn cael cyhoeddi adroddiad ar gyfer eu blwyddyn olaf, oni bai bod y cyngor yn teimlo bod hynny am ryw reswm gwerth chweil.*

Hyfforddiant a Datblygu ar gyfer Sefydlu Cyngor Newydd

4.13 Caiff etholiadau i Gyngor Sir Ddinbych ym mis Mai 2017 am gyfnod o 5 mlynedd eu cefnogi gan wybodaeth i ymgeiswyr gan gynnwys y canllaw '*Be a Councillor Make a Difference*' sydd ynghlwm fel atodiad 1 a rhaglen o hyfforddiant sefydlu.

4.14 Mae cynnwys rhai elfennau o'r rhaglen sefydlu yn cael ei baratoi gan awdurdodau lleol ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn gwneud y gorau o ansawdd a chwmpas yr hyfforddiant a'r deunyddiau, tra'n lleihau dyblygu. Efallai y bydd dull cyflwyno hefyd yn amrywio i gynnwys sesiynau hyfforddi a thaflenni a chyfleoedd e-ddysgu.

4.15 Gallai cynllun hyfforddi sefydlu blwyddyn o hyd fod yn debyg i'r un a amlinellir yn atodiad 2, a gofynnir am farn y pwyllgor.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae diwallu anghenion hyfforddiant a datblygu'r aelodau etholedig yn cyfrannu'n sylweddol at ddarparu blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor yn effeithiol, yn ogystal â cynrychioli etholwyr yn effeithiol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd costau darparu hyfforddiant a datblygu ar gyfer aelodau etholedig yn dibynnu ar faint a chynnwys y rhaglenni cyffredinol sy'n cael eu darparu. Disgwylir y bydd unrhyw wariant yn cael ei gynnwys o fewn y gyllideb a ddyrennir ar gyfer hyfforddi aelodau.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnig polisi newydd a chaiff unrhyw effaith ar faterion cydraddoldeb ar gyfer pob elfen o'r rhaglen hyfforddi a datblygu ei ystyried o ran y ddarpariaeth ei hun.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o ymarferiad ymgynghorol gydag aelodau, i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd wneud sylwadau neu argymhellion ar gynnwys a darpariaeth y sesiynau hyfforddiant a datblygu.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oedd angen datganiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Byddai amcanion y Cyngor i ddatblygu sgiliau ac ymddygiadau arweinyddiaeth ymhlith ei aelodau etholedig ac i sicrhau bod pob cynghorydd yn cael y gefnogaeth briodol i ymgymryd â'i rôl yn cael eu cyfaddawdu heb raglen gymorth gydgysylltiedig.

11. **Pŵer i wneud Penderfyniad**

Pennod 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

# Bod yn Gynghorydd
# Gwnewch Wahaniaeth

## Etholiadau Lleol Cymru 2017
## Llawlyfr i Ymgeiswyr

WLGA • CLILC



# Cysylltwch â ni

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) yn cynrychioli buddiannau byd llywodraeth leol ac yn hyrwyddo democratiaeth leol yng Nghymru. Mae'n cynrychioli 22 awdurdod lleol Cymru ac mae awdurdodau'r 3 gwasanaeth tân ac achub a'r 3 pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt. Prif ddibenion WLGA yw hyrwyddo safonau ac enw da maes llywodraeth leol a helpu'r awdurdodau i ddatblygu polisïau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau i'r cyhoedd a democratiaeth.

**WLGA, Tŷ Llywodraeth Leol, Rhodfa Drake, Caerdydd, CF10 4LG**

**Ffôn: 029 20 46 8600**

**Hawlfraint: WLGA**


**Cyhoeddwyd: 2016**

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llunio'r llawlyfr hwn ar gyfer y rhai fydd yn ymgeiswyr yn etholiadau cynghorau sirol a bwrdeistref sirol Cymru fis Mai 2017. Cewch ragor o wybodaeth yn - www.wlga.cymru

Cewch reoliadau etholiadol ar arweiniad a chanllawiau gan y Comisiwn Etholiadol www.electoralcommission.gov.uk







**© Hawlfrant y Goron (2016) Visit Wales**

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 4 |
| 2. | Beth yw gwaith cynghorau? | 5 |
| 3. | Sut y gallai'r cynghorau newid? | 7 |
| 4. | Sut caiff cynghorau eu hariannu? | 8 |
| 5. | Gyda phwy arall y mae cynghorau yn gweithio? | 9 |
| 6. | Beth yw gwaith cynghorydd? | 11 |
| 7. | Wythnos nodweddiadol ym mywyd Cynghorydd (1) | 17 |
| | Wythnos nodweddiadol ym mywyd Cynghorydd (2) | 19 |
| | Wythnos nodweddiadol ym mywyd Cynghorydd (3) | 20 |
| | Wythnos nodweddiadol ym mywyd Cynghorydd (4) | 22 |
| | Wythnos nodweddiadol ym mywyd Cynghorydd (5) | 24 |
| 8. | A fydda i'n cael fy nhalu? | 26 |
| 9. | Rheolau a rheoliadau i gynghorwyr | 27 |
| 10. | Beth yw gwaith swyddogion y cyngor? | 28 |
| 11. | Sut caiff cynghorwyr eu cefnogi yn eu gwaith? | 29 |
| 12. | Sut gallaf fod yn gynghorydd? | 30 |

# 1.Cyflwyniad

- Pa mor agos at eich calon yw eich cymuned leol?
- Hoffech chi newid unrhyw beth?
- Ydych chi'n barod i wneud penderfyniadau anodd?
- Beth am amlygu'r hyn sy'n bwysig i chi drwy fod yn gynghorydd lleol?

**Mae sawl rheswm pam mae pobl yn penderfynu bod yn gynghorwyr. Yn aml, maen nhw eisoes yn flaenllaw yn eu cymuned leol, wedi ymrwymo i blaid wleidyddol neu am newid rhywbeth yn lleol. Beth bynnag fo'r rheswm, mae'n deg dweud eu bod yn aml yn cael eu synnu gan faint o waith sydd o dan sylw a pha mor amrywiol yw'r rôl. Fodd bynnag, maen nhw'n mwynhau eu gwaith yn fawr er ei fod anoddach na'r disgwyl.**

Rhaid i gynghorwyr (neu aelodau, a hwythau'n aelodau o awdurdod lleol) gadw'r ddysgl yn wastad o ran sawl rôl a dyletswydd. Mae angen i gynghorwyr bwyso a mesur anghenion a lles eu cymuned, eu plaid (os ydyn nhw'n aelod) yn ogystal â'r cyngor yn gyffredinol. I fod yn gynghorydd, mae angen ymrwymiad a llawer iawn o amser, a hynny ar ben ymrwymiadau eich bywyd personol a'ch gwaith. Fodd bynnag, mae bod yn gynghorydd yn ffordd werth chweil a breintiedig o wasanaethu'r cyhoedd. Os cewch eich ethol, byddwch mewn sefyllfa i newid bywydau pobl er gwell.

Bwriad y llawlyfr yma yw amlinellu'r wybodaeth sylfaenol i'w hystyried os ydych am fod yn gynghorydd. Mae'n cynnwys llu o ddolenni lle cewch wybodaeth fanylach ar y we yn ogystal â barn cynghorwyr i'ch helpu chi benderfynu p'un ai ydych am fynd lawr y llwybr hwn ai peidio.

Ffrwyth gwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru )WLGA) a phob awdurdod lleol yng Nghymru y llawlyfr yma. Mae WLGA yn cynrycholi buddiannau byd llywodraeth leol ac yn hyrwyddo democratiaeth yng Nghymru. Mae'n cynrychioli pob awdurdod lleol, yr awdurdodau tân a'r parciau cenedlaethol.

"Fe fues i'n weithiwr mewn awdurdod lleol ac mae'r gymuned leol yn agos at fy nghalon. Felly, roedd cyflwyno fy enw yn ymgeisydd mewn etholiad lleol yn gam naturiol i mi.

Ar ôl gwasanaethu'n gynghorydd lleol am bedair blynedd, fe ges i gyfle i fod yn rhan o'r cabinet. Ces i fy ethol yn arweinydd y cyngor rywbryd wedyn.
Er bod anawsterau penodol i bob rôl boed gynghorydd lleol, aelod o'r cabinet neu arweinydd y cyngor, mae digon o gyfleoedd i effeithio er gwell ar y fro, y fwrdeistref sirol a'r rhanbarth ehangach, hefyd.

A minnau'n arweinydd, mae gen i gyfle i bennu trywydd y cyngor, y fwrdeistref sirol a'r rhanbarth ehangach. Mae'r blynyddoedd diwethaf hyn wedi bod yn ymestynnol ym maes llywodraeth leol ac, yn rhinwedd fy swyddi yn aelod o'r cabinet ac yn arweinydd, rwyf i wedi wynebu rhai penderfyniadau anodd am wasanaethau'r cyngor. Wedi dweud hynny, dydw i ddim yn edifaru cael fy ethol yn gynghorydd lleol. Pe na bai hynny wedi digwydd, fuaswn i ddim mewn sefyllfa i fynd i'r afael â'r problemau presennol."

**Arweinydd cyngor**

# 2.Beth yw gwaith cynghorau?

**Mae gan awdurdodau lleol (cynghorau) rôl hanfodol wrth lywodraethu Cymru gan eu bod yn cynnig yr arweiniad a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar eu cymunedau.**

Mae 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ar hyn o bryd, ond gall hyn newid yn ystod y blynyddoedd nesaf yn ôl pob tebyg; caiff hyn sylw nes ymlaen. Mae cynghorau Cymru yn cynnig dros 700 o wasanaethau lleol, gan gynnwys ym meysydd:

- **Addysg** e.e. darparu ysgolion, cludiant i ddisgyblion a chyfleoedd dysgu i oedolion.
- **Tai** e.e. dod o hyd i lety ar gyfer pobl mewn angen a chynnal tai cymdeithasol.
- **Gwasanaethau cymdeithasol** e.e. gofalu am blant, pobl hŷn a phobl anabl a'u hamddiffyn.
- **Priffyrdd a thrafnidiaeth** gan gynnwys cynnal a chadw ffyrdd a rheoli llif traffig.
- **Rheoli gwastraff** gan gynnwys casglu sbwriel ac ailgylchu.
- **Hamdden a gwasanaethau diwylliannol** e.e. darparu llyfrgelloedd, gwasanaethau hamdden a chanolfannau celfyddydol.
- **Diogelu defnyddwyr** e.e. gorfodi safonau masnach a thrwyddedu tacsis.
- **Gwasanaethau iechyd ac amgylcheddol** e.e. gofalu bod bwyd diogel yn cael ei weini mewn tafarndai a bwytai'n ddiogel, a rheoli llygredd yn lleol.
- **Cynllunio** gan gynnwys rheoli datblygiadau lleol a gofalu bod adeiladau'n ddiogel.
- **Datblygu'r economi** e.e. denu busnesau newydd ac annog twristiaeth.
- **Cynllunio ar gyfer argyfyngau** e.e. llifogydd neu ymosodiadau terfysgol.



Yn ogystal â rhoi gwasanaethau lleol, cynghorau yw'r cyflogwr mwyaf yn eu hardal o gryn dipyn ac maen nhw'n cyfrannu'n sylweddol at yr economi leol.

Rhaid i gynghorau ddarparu rhai gwasanaethau statudol. Mae gofal cymdeithasol, iechyd yr amgylchedd, a chynllunio ymhlith y gwasanaethau y mae'n rhaid iddyn nhw eu cynnig yn ôl y gyfraith. Y cynghorau sydd i benderfynu p'un a ydyn nhw am gynnig gwasanaethau eraill fel canolfannau hamdden a chelfyddydol.

Maen nhw'n darparu rhai gwasanaethau naill ai'n uniongyrchol, ar y cyd â sefydliadau eraill, neu'n comisiynu cyrff eraill yn y sectorau preifat a gwirfoddol i gyflwyno gwasanaethau ar eu rhan.

Nid gwneud elw yw'r prif nod i gynghorau er eu bod yn cynnig rhai gwasanaethau masnach fel arlwyo yn ogystal â gwasanaethau fel canolfannau hamdden y gall y sector preifat eu cynnig hefyd.




Mae gan gynghorau ddyletswyddau statudol ehangach hefyd e.e. hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a dileu gwahaniaethu. Hefyd, mae'r gyfraith yn mynnu eu bod yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r boblogaeth bresennol wrth ddod i bob penderfyniad.

Os cewch eich ethol, bydd angen i chi ddeall yn union pa bwerau sydd gan eich awdurdod lleol, oherwydd bydd hyn yn effeithio ar eich gallu i wneud penderfyniadau a gweithio er lles y cyhoedd.

# 3. Sut y gallai'r cynghorau newid?

**Gan fod pob plaid wleidyddol wedi amlinellu sut yr hoffai ad-drefnu maes llywodraeth leol ar gyfer etholiad 2016, bydd rhaid penderfynu ar sawl mater yn ystod  cyfnod nesaf y Cynulliad.**

Mae 22 o awdurdodau lleol wedi bod yng Nghymru ers 1996. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod angen diwygio byd llywodraeth leol i fynd i'r afael â'r heriau ariannol a demograffig yn y sector cyhoeddus.

Cafodd cynlluniau'r Llywodraeth eu llywio gan waith Comisiwn Williams (a gyflwynodd adroddiad ym mis Ionawr 2014). Awgrymwyd yn yr adroddiad bod y drefn lywodraethu sydd ohoni yn rhy gymhleth a bod maint yr awdurdodau yn effeithio ar arweiniad a gwasanaethau. Argymhellodd Williams uno'r awdurdodau fel bod 10-12 ohonyn nhw.


Cynigiodd y Llywodraeth Cymru 12 awdurdod yn wreiddiol, cyn cyhoeddi cynigion ym mis Mehefin 2015 i gael 8-9 ohonyn nhw. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fesur Llywodraeth Leol Cymru fis Tachwedd 2015 i ymhelaethu ar ei chynigion.

O gael eich ethol yn 2017, byddwch chi'n dechrau ym maes llywodraeth leol ar adeg ac iddi newidiadau sylweddol, a byddwch chi'n cyfrannu'n uniongyrchol at broses diwygio'r ffordd o gynnig gwasanaethau cyhoeddus lleol i gymunedau'r wlad.

Bydd yr etholiadau lleol nesaf ym mis Mai 2017 (ar sail y 22 o gynghorau sydd gennym). Pe bai Llywodraeth Cymru yn parhau â'i chynigion eleni, bydd etholiadau lleol yn 2019 yn ôl trefn newydd ac ynddi 8 neu 9 cyngor, cynhelir etholiadau lleol wedi hynny yn 2019 ar sail map newydd byd llywodraeth leol, a bydd yr awdurdodau unedig newydd yn dod i fodolaeth yn 2020. Yn ôl pob tebyg, bydd tua thraean yn llai o gynghorwyr yn y cynghorau newydd.

**Byddwn ni'n diweddaru'r rhan hon yn haf 2016.**

Cliciwch yma i gael rhagor o fanylion am gynigion Comisiwn Williams a'r Llywodraeth.



# 4. Sut caiff cynghorau eu hariannu?

**Er bod y rhan fwyaf o bobl yn meddwl mai treth y cyngor sy'n ariannu cynghorau yn bennaf, mae i'w gyfrif am tua 20% yn unig o incwm cynghorau yng Nghymru ar gyfartaledd. Ar ben hynny, nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn sylweddoli ychwaith bod treth y 'Cyngor' yn cyfrannu at yr heddlu lleol, cynghorau cymuned a thref, yn ogystal â gwasanaethau tân ac achub.**

O Lywodraeth Cymru y daw'r rhan fwyaf o arian y cynghorau lleol, trwy gyfrwng Grant Cynnal y Cyllid. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grantiau ar gyfer rhaglenni, prosiectau neu dargedau penodol, hefyd. Bydd yn rhoi dros £4 biliwn i'r cynghorau lleol yn 2016-17.

Mae'r cynghorau lleol yn wynebu mwy a mwy o anawsterau o achos llymder parhaus Llywodraeth San Steffan ac effeithiau'r dirwasgiad o hyd. Mae cynghorau'n cael llai a llai o arian, a hynny ar adeg pan mae rhagor o anghenion. Mae pwysau demograffig hefyd, yn enwedig o ran nifer cynyddol o bobl hŷn. Mae cynghorau yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch torri gwasanaethau a diswyddo. Maen nhw hefyd yn ystyried ffyrdd newydd o gynnig gwasanaethau.

Er bod gan gynghorau hyblygrwydd o ran sut i flaenoriaethu a gwario eu hadnoddau, rhaid ariannu rhai o'r gwasanaethau drytaf a statudol, fel addysg, gwasanaethau cymdeithasol a thai hyd at lefel sy'n cyrraedd rhai safonau. Yn sgîl hynny, rhai o'r gwasanaethau dewisol y mae'r cyhoedd yn eu gwerthfawrogi fwyaf, fel yr amgylchedd lleol, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a'r celfyddydau, sy'n dioddef pan mae'r esgid fach yn gwasgu. Mae cynghorau'n cynhyrchu ychydig o incwm hefyd drwy ffioedd fel parcio, gwasanaethau mewn canolfannau hamdden neu ffioedd cynllunio.

Cewch wybod rhagor am arian byd llywodraeth leol yma.



"Bydd yn anodd cytuno ar gyllideb bob amser, ond mae cynghorwyr lleol yn cyflawni rôl bwysig iawn o ran cadw'r ddysgl yn wastad rhwng diwallu anghenion cymunedau a gwario'r arian sydd ar gael. Mae'n rôl anodd ond hanfodol. Gan fod cyllidebau'n crebachu bob blwyddyn, rhaid cwtogi ar wasanaethau – yn arbennig y rhai anstatudol sy'n werthfawr i sawl trigolyn, megis tai bach cyhoeddus. Cawson ni ein hethol i gynrychioli'r bobl a gwella gwasanaethau. Mae'n anochel y bydd prinder arian yn achosi straen a chwerwder, yn arbennig pan fo'n effeithio ar eich bro neu ar wasanaethau sy'n agos at eich calon."

# 5. Gyda phwy arall y mae cynghorau yn gweithio?

**Mae cynghorau lleol yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid lleol a chenedlaethol wrth gynnig gwasanaethau, rhoi cynrychiolaeth ddemocrataidd ac arwain yn strategol.**

Bydd sawl un o'r rhain yn grwpiau cymunedol neu wirfoddol, ond maen nhw hefyd yn cydweithio â chyrff cyhoeddus neu adrannau yn y llywodraeth.

**Mae pum haen o ddemocratiaeth yng Nghymru:**

**Senedd Ewrop**
4 ASE o Gymru
Gwefan www.europarl. europa.eu/

**Senedd San Steffan**
40 AS o Gymru
Gwefan www.parliament.uk/

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
60 AC
40 AC etholaethol ac 20 AC rhanbarthol
Gwefan www.cynulliad.cymru/
Mae pobl yn aml yn drysu rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Cymru; Senedd Cymru yw'r Cynulliad. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys Gweinidogion Cymru ac yn gosod yr agenda ar gyfer Cymru ym meysydd gwasanaethau cymdeithasol, addysg, yr amgylchedd, cynllunio, trafnidiaeth a datblygu economaidd (ymhlith eraill).
Gwefan www.gov.wales/

**Awdurdodau lleol** (sydd hefyd yn cael eu galw'n awdurdodau unedol, cynghorau sir neu'n gynghorau bwrdeistref sirol). Mae 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ar hyn o bryd, a thua 1,254 o gynghorwyr. Yn sgîl y newidiadau i fyd llywodraeth leol y cyfeiriwyd atyn nhw eisoes, bydd llai o awdurdodau a chynghorwyr yn 2020 yn ôl pob tebyg.

**Cynghorau Cymuned a Thref** (735 o gynghorau a thua 8,000 o gynghorwyr). Mewn rhai achosion, mae cynghorwyr yn aelodau o awdurdod unedol yn ogystal â chyngor cymuned neu dref. Mae awdurdodau lleol yn cydweithio â'u cynghorau cymuned a thref yn aml. Ar hyn o bryd, mae cynghorau cymuned a thref yn cynnig gwasanaethau fel cynnal caeau chwarae, parciau a mannau agored, neuaddau pentref, gerddi ar osod a mynwentydd. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan Un Llais Cymru, y sefydliad sy'n eu cynrychioli www.unllaiscymru.org.uk /

WLGA • CLILC

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Un Llais Cymru
One Voice Wales

Mae cynghorau'n cydweithio â phartneriaid cyhoeddus fel:

- **Awdurdodau Tân ac Achub**
- **Comisiynwyr Heddlu a Throseddau**
- **Awdurdodau Parciau Cenedlaethol**
- **Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mae cynghorau yn cydweithio'n agos â chynghorau cyfagos wrth drefnu, comisiynu neu gyflwyno gwasanaethau ar y cyd. Drwy wneud hyn, maen nhw'n gofalu bod gwasanaethau'n cael eu cynnig yn y ffyrdd mwyaf cost-effeithiol ac effeithlon.

Mae’r cynghorau lleol yn cynnal partneriaethau statudol o’r enw byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn eu hardaloedd, hefyd. Mae aelodau pob bwrdd o’r fath yn cynrychioli amryw sefydliadau cyhoeddus yn ogystal â mudiadau gwirfoddol a chymunedol. Ar ôl asesu llesiant, byddan nhw’n paratoi cynllun llesiant yn ystod tymor y cyngor lleol.

Mae’r cynghorau’n gweithio dros **Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru** hefyd – mae'r cyrff yma'n archwilio, yn arolygu a/neu'n rheoleiddio awdurdodau lleol a'u gwasanaethau. Maen nhw'n llunio adroddiadau am safonau gwasanaethau, sut maen nhw'n cael eu llywodraethu, a sut maen nhw'n gwario arian y cyhoedd.







Os ydych chi’n aelod o blaid wleidyddol, bydd disgwyl ichi fynd i gyfarfodydd y cylch gwleidyddol, hyfforddiant y blaid ac achlysuron eraill. Gallai cynghorydd gael ei benodi’n aelod o awdurdod gwasanaeth tân ac achub neu barc cenedlaethol. Byddai disgwyl iddo gynrychioli’r corff hwnnw yn y gymuned ac, yn ei gyfarfodydd, penderfynu ar faterion a goruchwylio’r cyflawniad yn ogystal â rhoi gwybod i’r cyngor am benderfyniadau neu weithgareddau perthnasol.



**© Hawlfraint y Goron (2016) Visit Wales**

# 6. Beth yw gwaith cynghorydd?

**Mae cynghorwyr yn cael eu hethol i gynrychioli eu cymuned leol yn eu cygnor lleol. Mae cynghorwyr yn dylanwadu ar sut mae'r gwasanaethau yma'n cael eu cyflwyno, eu hariannu a'u blaenoriaethu.**

Ar gyfartaledd, amcangyfrifir bod cynghorwyr yn treulio gwerth tri diwrnod yr wythnos yn ymwneud â gwaith y cyngor, ond mae llawer o'r farn ei bod yn swydd amser llawn. Mae llawer o gyflogwyr yn cydnabod gwerth gwaith cynghorwyr a'r sgiliau y bydd eu gweithwyr yn eu hennill yn y rôl. Felly, maen nhw'n cynnig amser i ffwrdd neu drefniadau gweithio'n hyblyg i weithwyr sydd hefyd yn gynghorwyr.

Caiff cyflogwyr wybod rhagor ar wefan busnesau'n cefnogi cymunedau, cliciwch yma.

I fod yn gynghorydd, mae angen ymroddiad, amynedd a chryfder. Gall fod yn waith anodd dros ben, ond gall fod yn wobrwyol a diddorol hefyd.

Mae pob cynghorydd yn dadlau achos eu cymunedau ac yn cynrychioli eu hetholaethau unigol pan ofynnir am gyngor neu gefnogaeth. Maen nhw'n treulio llawer mwy o'u hamser yn eu cymunedau yn siarad ac yn gweithio gyda'r cyhoedd a chylchoedd cymunedol. Arwain y gymuned yw'r enw ar gyfer y rôl yma fel arfer. Gall arwain y gymuned olygu sawl peth i wahanol gynghorwyr. Hyrwyddo buddiannau






eich etholaeth; lobïo ynghylch pryderon lleol; dylanwadu ar gyrff partner i weithio tuag at yr un nod; datrys gwrthdaro rhwng cyrff cymunedol; annog cyrff cymunedol i ganfod atebion yn eu cymunedau eu hunain; a chydbwyso'r galw o bob cyfeiriad am adnoddau wrth ddod i benderfyniadau fydd o les i ardal yr awdurdod yn gyffredinol.

"Ers fy ethol, rwyf i wedi mwynhau gwaith amryfal cynghorydd sirol. Bydd pob dydd, mater a chyfarfod yn wahanol i'r un blaenorol mewn rhyw ffordd. Wrth ateb y ffôn, darllen negeseuon ebost neu dderbyn ymwelydd, fydda i byth yn gwybod pa gamau y bydd rhaid eu cymryd. Rwy'n gweithio ochr yn ochr â sawl swyddog ardderchog ac rwy'n falch o allu newid fy ward er gwell mewn amryw ffyrdd bychain megis cael gafael ar finiau sbwriel newydd, trefnu i'r ffyrdd gael wyneb newydd, gofyn i stryd gael ei mabwysiadu a gofalu bod bws yn dod heibio bob awr eto. Mae'n dda gen i ddweud fy mod wedi helpu llawer o drigolyn drwy drin a thrafod achosion unigol, hefyd."

I fod yn arweinydd cymunedol effeithiol, mae angen i gynghorwyr siarad â'r gymuned a deall anghenion a theimladau eu hetholwyr i'r dim. Ni all cynghorwyr helpu pawb ond mae angen iddyn nhw allu egluro eu penderfyniadau'n gwbl agored a gofalu bod barn y trigolion yn cael ei chlywed - y cynghorwyr yw eu llais yn y cyngor. Bydd angen i gynghorwyr egluro polisïau a safbwyntiau’r cyngor hefyd a gofalu bod y gymuned yn deall pam mae penderfyniadau wedi'u gwneud, gan gynnwys penderfyniadau amhoblogaidd ar adegau.

**I allu bod yn gynghorydd effeithiol, byddai disgwyl i chi:**

- **Adnabod eich cymunedol leol** (a elwir hefyd yn ward neu'n isadran etholiadol). Pa fath o bobl sy'n byw yno? Beth maen nhw'n ei wneud? Beth sydd ei angen arnyn nhw?
- **Cyfathrebu gyda phobl – yn rheolaidd ac yn aml.** Bydd angen i chi ofalu bod modd i bobl gwrdd â chi wyneb yn wyneb a sgwrsio ar gyfryngau cymdeithasol. Hefyd, rhaid i chi wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod pwy ydych, a beth ydych yn ei wneud ar eu rhan. Mae rhai cynghorwyr yn ysgrifennu cylchlythyrau ac adroddiadau blynyddol ar gyfer gwefan y cyngor fel bod pawb yn gwybod beth sy'n digwydd.
- **Rhwydwaith** – ymgyfarwyddwch â’ch ardal, y cylchoedd a'r cyrff cymunedol, a byddwch yn amlwg.
- **Ymgymryd ag achosion ar ran unigolion a chylchoedd.** Gall hyn gynnwys datrys problem leol neu gysylltu pobl â'r cyngor neu gyrff eraill a all helpu. Bydd angen i chi ddeall i ba raddau y gallwch helpu, a phryd y dylech gyfeirio pobl at swyddogion y cyngor.

**Mae amrywiaeth enfawr o wybodaeth am eich ardal a'ch cymuned leol ar gael ar-lein.** Mae gan Uned Data Llywodraeth Leol wybodaeth ddemograffig am eich ardal - **infobasecymru—Cliciwch** yma**.** Cewch wybod am addysg, iechyd, tras ac oed y bobl sy'n byw yn eich ardal, a llawer mwy. Bydd gwefan **Fy Nghyngor Lleol** hefyd yn dweud wrthych am hynt a helynt eich cyngor a beth yw barn pobl yn ei gylch. **Cliciwch** yma**.**



“

Cefais fy ethol yn 2012 ar sail mandad i ddatrys anawsterau parcio a thraffig lleol. Er gwaethaf llu o gyfarfodydd a negeseuon ebost, dydw i heb allu datrys y materion hyn ar gyfer fy nhrigolion. Cefais fy ethol ar sail agenda werdd, ac rydw i wedi bod yn fwy llwyddiannus yn y maes yma. Rydw i wedi mynd ati i wella gerddi a rhandiroedd lleol. Rydw i hefyd wedi dilyn esiamplau yr ydw i wedi'u gweld ar draws y ddinas, ac annog pobl i dyfu pethau yn y ddinas. Mae olwynion byd llywodraeth leol yn troi'n boenus o araf ar adegau, ac yn aml does dim modd cyflawni'r hyn y cawsoch eich ethol i'w wneud. Fodd bynnag, gyda digon o egni a brwdfrydedd, mae modd datrys yr anawsterau anoddaf.

”

“

Yn neuadd y sir, rwy’n ymwneud â gwaith y cylch gwleidyddol a nifer o bwyllgorau a gweithgorau. Yn ddiweddar, derbyniodd y cyngor gynnig roeddwn i wedi’i gyflwyno.  Mae gwaith cynghorydd yn ddiddorol iawn. Mae digon i’w ddysgu ac mae cyfleoedd i gwrdd â phobl o bob lliw a llun a gwneud llawer o wahanol bethau. Mae’r toriadau cyllidebol a’r llymder wedi bod yn anodd, fodd bynnag, ac mae’n ymddangos y bydd y sefyllfa’n waeth fyth dros y blynyddoedd sydd i ddod fel y bydd rhaid i’r cyngor lleol gyflawni rhagor heb gymaint o arian.

”

## Un cyfarfod ar ôl y llall!

Y farn ystrydebol ynghylch cynghorau yw bod cynghorwyr yn treulio llawer o amser mewn cyfarfodydd hir a difywyd. Mae disgwyl i gynghorwyr fynychu cyfarfodydd pwyllgorau neu gylchoedd maen nhw wedi’u penodi’n aelodau ohonyn nhw, yn ogystal â threulio amser yn eu cymunedau gan gwrdd â phobl y fro mewn achlysuron neu gyfarfodydd a chydweithio â staff y cyngor a’i bartneriaid ynglŷn â materion lleol.

Er bod disgwyl i gynghorwyr fynd i gyfarfodydd y pwyllgorau neu'r grwpiau y maen nhw wedi'u penodi ar eu cyfer, mae’r amser y mae cynghorwyr yn ei dreulio yn eu cymuned leol yn hollbwysig. Maen nhw'n cwrdd â phobl leol mewn digwyddiadau lleol neu gyfarfodydd cymunedol neu'n gweithio gyda swyddogion y cyngor ac asiantaethau partner ar faterion lleol.

Bydd angen i chi ddilyn rhai cyfarwyddiadau pan fyddwch yn mynd i gyfarfodydd y cyngor. Nodir y rhain yng **nghyfansoddiad** y Cyngor. Mae'r ddogfen yma’n nodi sut y gwneir penderfyniadau, cyfrifoldebau pob pwyllgor a sut i gynnal cyfarfodydd.  Hefyd, bydd y cyfansoddiad yn pennu'r rheolau pwysig sy'n berthnasol i faterion ariannol y cyngor.

Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y Cyngor yn agored i'r cyhoedd, a darlledir llawer ohonyn nhw ar-lein. Ar adegau, fodd bynnag, mae angen cynnal cyfarfodydd, neu rannau ohonyn nhw, yn breifat os oes gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif yn cael ei thrafod. Mae gan bob pwyllgor gadeirydd ac is-gadeirydd. Mae'r cynghorwyr yma'n gofalu bod y gwaith yn cael ei wneud a bod rheolau'r cyfarfod yn cael eu dilyn. Hefyd, mae gan bwyllgorau swyddogion sy'n cefnogi eu gwaith e.e. drwy gynnal ymchwil a chymryd cofnodion.

**Dyma fraslun o'r pwyllgorau y gallai cynghorwyr fod yn aelodau ohonyn nhw:**

## Cyngor

Mae pob cynghorydd yn aelod o'r cyngor llawn. Mae'r cyngor llawn yn trafod ac yn penderfynu ar bolisïau ar sail adroddiadau gan y pwyllgorau. Mae hefyd yn cytuno ar brif bolisïau'r cyngor a'i gyllideb. Mae'r cyngor llawn yn cwrdd bob 4-6 wythnos fel arfer.

## Cabinet

Nifer fach o uwch-gynghorwyr fydd yn rhan o'r cabinet neu'r bwrdd gweithredol o dan arweiniad arweinydd y cyngor. Llywodraeth cyngor lleol yw cabinet. Fel arfer, bydd yr aelodau'n perthyn i'r cylch gwleidyddol ac iddo'r mwyafrif yn y cyngor. Ar y llaw arall, gallen nhw fod yn rhan o glymblaid. Nhw sy'n penderfynu sut mae'r cyngor yn cael ei gynnal o ddydd i ddydd. Gan amlaf, mae pob aelod o'r cabinet yn gyfrifol am faes penodol neu bortffolio e.e. addysg, yr amgylchedd neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y cabinet yn cwrdd unwaith yr wythnos fel arfer.

## Goruchwylio a Chraffu

Mae gan bob un o'r cynghorwyr eraill rôl o safbwynt goruchwylio a chraffu ar gyflawniad y cyngor a chyrff eraill y mae eu gwaith yn effeithio ar gymunedau lleol. Mae goruchwylio a chraffu yn hanfodol, gan ei fod yn edrych ar benderfyniadau'r cabinet a pha mor effeithiol yw polisïau a chyflawniad y cyngor. Mae gan yr aelodau sy'n craffu rôl bwysig hefyd o ran adolygu a datblygu polisïau, yn ogystal ag ymchwilio i faterion sy'n peri pryder i'r gymuned leol. Er nad yw pwyllgorau craffu yn gwneud penderfyniadau, maen nhw'n cynnal ymchwiliadau ac yn cynnig argymhellion pwysig i'r cabinet. Mae pwyllgorau craffu yn cwrdd unwaith y mis fel arfer, ac mae cylchoedd llai sy'n ymgymryd ag ymchwiliadau yn cynnal cyfarfodydd ychwanegol. Gan ddibynnu ar nifer y cynghorwyr a phwyllgorau, mae cynghorwyr yn aelodau o fwy nag un pwyllgor craffu fel arfer. Gwefan **www.cfps.org.uk/**

## Pwyllgorau rheoleiddio

Mae llawer o gynghorwyr yn aelodau o bwyllgorau cynllunio a thrwyddedu hefyd. Felly, gallech fod yn dod i benderfyniad ynghylch adeiladau a datblygu lleol, neu dacsis a safleoedd trwyddedig ar draws yr awdurdod. Bydd pwyllgor rheoleiddio yn cwrdd bob 2-4 wythnos fel arfer.

## Pwyllgorau eraill

Gall rhai cynghorwyr fod yn aelodau o bwyllgorau eraill hefyd e.e. y pwyllgor archwilio sy'n gwneud yn siŵr bod trefn ar bolisïau a phrosesau ariannol yr awdurdod, y pwyllgor safonau sy'n mynnu bod cynghorwyr yn ymddwyn yn briodol (bydd rhagor nes ymlaen am sut y dylai cynghorwyr ymddwyn), neu bwyllgorau ad hoc fel y rhai sy'n penodi staff newydd.

## Cyrff lleol eraill

Caiff cynghorwyr fod ar gyrff allanol hefyd e.e. cyrff llywodraethu ysgolion, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaethau lleol, naill ai i gynrychioli'r cyngor, neu fel ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr yn eu rhinwedd eu hunain Mae rhai cynghorwyr yn aelodau o awdurdodau tân ac achub yn ogystal ag awdurdod parc cenedlaethol os ydy'r cyngor yn rhan o barc o'r fath.

“

Fi yw cadeirydd craffu. Rydyn ni newydd gwblhau adolygiad o'r system codi ffioedd parcio. Nod yr adolygiad oedd cynnig lleoedd i barcio sy'n addas i amgylchiadau lleol, cynyddu prysurdeb canol trefi a busnesau lleol, a rheoli trefniadau parcio mewn modd cost-effeithiol. Aethon ni ati i gasglu tystiolaeth gan siambrau masnach a chynghorwyr sydd â maes parcio yn eu ward, yn ogystal ag ymweld â phob maes parcio yn y sir a chasglu data. Roedd yr ymarfer craffu o ddefnydd gan ei fod yn gyfle i glywed barn y gymuned ar adeg pan oedd meysydd parcio'r sir yn cael cryn sylw yn y cyfryngau. Cyflwynodd y Pwyllgor 22 o argymhellion i'r Cabinet. Caiff adroddiad sy'n cynnwys yr ymateb i bob un o'r argymhellion, ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cabinet. Cafodd nifer o'r argymhellion eu rhoi ar waith ar unwaith, ac mae swyddogion yn bwrw golwg fanylach ar y lleill.

”

Os ydych chi’n aelod o blaid wleidyddol, bydd disgwyl ichi fynd i gyfarfodydd y cylch gwleidyddol, hyfforddiant y blaid ac achlysuron eraill.



# 7. Wythnos nodweddiadol ym mywyd Cynghorydd (1)

## Ionawr

**"AMSER MAITH YW WYTHNOS YM MYD GWLEIDYDDIAETH" Harold Wilson ddywedodd hynny 50 mlynedd yn ôl, a gall fod yn gyfnod maith i gynghorydd a chanddo swydd amser llawn, hefyd.**

### 18: Dydd Llun

**Yn y gwaith erbyn 7 o'r gloch yn ôl fy arfer. Trin a thrafod y negeseuon ebost a chynllunio ar gyfer yr wythnos i ddod. Mae'n ffodus bod cynllun gweithio'n hyblyg gan fy nghyflogwr fel y galla i drefnu i wneud peth gwaith dros y cyngor, hefyd. Rhaid mynd i gyfarfod llywodraethwyr yr ysgol gynradd leol y prynhawn yma. Mae staff yr ysgol yn wych ac er bod yr ardal yn un ddifreintiedig, mae canlyniadau'r plant yn ardderchog. Es i gyfarfod y cylch gwleidyddol wedyn a chyrraedd y tŷ erbyn 7 o'r gloch er mwyn ymateb i negeseuon y cyngor, ymholiadau trigolion a chamau swyddogion.**

### 19: Dydd Mawrth

**Gweithio gartref yn y bore. Yn y prynhawn, es i gyfarfod cymdeithas gwirfoddolwyr y sir i gynrychioli'r cyngor yno am y tro cyntaf. Mae llawer o waith gwirfoddol gwych yn mynd rhagddo yn ein bwrdeistref sirol er lles y cymunedau! Cyfarfod y cyngor cyfan wedyn gan gynnwys canllawiau ychwanegol am gynllunio, polisi cyflogau, ffioedd trwyddedu, cofrestru a chaniatáu a chwestiynau am fudd-daliadau tai a threth y cyngor. Cyrhaeddais i'r tŷ tua 7 o'r gloch a thrin a thrafod negeseuon y cyngor eto.**

### 20: Dydd Mercher

**Diwrnod llawn yn y gwaith – dim gwaith dros y cyngor heddiw, ar wahân i negeseuon ebost, wrth gwrs!**

## 21: Dydd Iau

Bore prysur yn y gwaith cyn mynd i adeilad y cyngor ar gyfer cyfarfod partneriaeth y gymuned – gweithwyr gwirfoddol lleol sy'n rhoi o'u hamser a'u hymdrechion i wella amwynderau a chyfleusterau'r gymdogaeth ddifreintiedig yma. Cryfder eu cymuned ydyn nhw ac mae'n dda gan bob un o'r cynghorwyr eu helpu pan fo modd.

## 22: Dydd Gwener

Diwrnod llawn yn y gwaith. Darllen negeseuon o'r cyngor wedyn, cyn mynd i gyfarfod cyffredinol blynyddol cangen leol fy mhlaid.

## 23: Dydd Sadwrn

Dim gorffwys o gwbl. Cymhorthfa fisol cynghorwyr y fro a fydd yn mynd rhagddi mewn tri lle gwahanol yn eu tro er mwyn cynnig cyfle i'r trigolion dynnu ein sylw at bryderon megis parcio, cyflwr y ffyrdd, materion tai neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n dda gyda ni wrando arnyn nhw bob amser a cheisio datrys eu problemau.

## 24: Dydd Sul

Dim gorffwys o gwbl. Cymhorthfa fisol cynghorwyr y fro a fydd yn mynd rhagddi mewn tri lle gwahanol yn eu tro er mwyn cynnig cyfle i'r trigolion dynnu ein sylw at bryderon megis parcio, cyflwr y ffyrdd, materion tai neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n dda gyda ni wrando arnyn nhw bob amser a cheisio datrys eu problemau.

# Wythnos nodweddiadol ym mywyd Cynghorydd (2)

## Mawrth

### 14: Dydd Llun

Allan yn gwneud gwaith gwirfoddol y bore ma. Mynd â'r ci am dro am 12.15. Wrth gerdded, rwy'n sylwi ar dyllau yn y ffordd a bod rhai cerrig palmant wedi torri. Ar ôl mynd adref, rwy'n anfon cyfeiriadau at y Cyngor i gymryd camau. Mae Swyddog Cymorth Lleol yr Heddlu yn galw heibio i drafod materion lleol gan fy mod yn mynd i gyfarfod Partneriaeth Gweithredu Lleol nos Fawrth. Rwy'n mynd i gyfarfod elusen gyda'r nos.

### 15: Dydd Mawrth

Gweithio ym Mryste y bore ma, gadael am 7.45. Ar fy ffordd adref, rwy'n sylwi bod arwydd rhybudd yn fy ward yn wynebu'r ffordd anghywir, a bod dim modd i yrwyr allu ei weld oherwydd hynny. Ar ôl mynd adref, rwy'n hysbysu'r Cyngor drwy ebost. Ar yr un adeg, rwy'n ateb unrhyw negeseuon ebost newydd, yn cofnodi dyddiadau cyfarfodydd ac yn edrych â ydy'r cyngor wedi mynd i'r afael ag achosion blaenorol yr ydw i wedi'u cyfeirio atyn nhw. 2.30 - mynd i gyfarfod llywodraethwyr yn fy ysgol gynradd leol. Gadael y tŷ am 7.45 i fynd i fy nghyfarfod Partneriaeth Gweithredu Lleol.

### 16: Dydd Mercher

9.15 - bwrw golwg dros fy negeseuon ebost ac anfon cyfeiriadau newydd am golofnau golau nad ydyn nhw'n gweithio. Mynd â'r ci am dro. Gadael y tŷ am 12.30 i fynd i gyfarfod grŵp. 2.00 - mynd i gyfarfod hysbysu (datblygu cynghorwyr) am y gwasanaeth tân cyn cyfarfod y Cyngor. 3.00 - mynd i gyfarfod llawn y Cyngor. Gartref erbyn 4.45 ac allan gyda'r nos gyda ffrindiau.

## 17: Dydd Iau

8.30 - ateb negeseuon ebost a chofnodi unrhyw gyfarfodydd y mae angen imi fynd iddyn nhw yn fy nyddiadur personol. Mynd i weithdy am 9.30. Hanner dydd - mynd i'r dref i siopa a dychwelyd i swyddfeydd y cyngor i fynd i gyfarfod am Ganllawiau Cynlluniau Atodol. Mynd trwy negeseuon gan etholwyr ar y peiriant ateb a chymryd camau. Mynd i gyfarfod Cyngor y Gymuned am 7.00.

## 18: Dydd Gwener

11.00 - Ymweld ag etholwr sydd wedi ffonio i ofyn i mi alw heibio i drafod cais cynllunio. 2.00 - gweithio yng Nghaerdydd.

## 19: Dydd Sadwrn

Gwaith tŷ a mynd â'r ci am dro. Ffonio etholwyr oedd wedi gadael negeseuon ar y peiriant ateb pan oeddwn allan.

## 20: Dydd Sul

Treulio amser gyda'r teulu.

# Wythnos nodweddiadol ym mywyd Cynghorydd (3)

## Mehefin

### 13: Dydd Llun

| | |
|---|---|
| 9.00 - 11.30: | Aros gartref a darllen adroddiad cymhleth am ddyrannu tai. |
| 12.00: | Cwrdd â chyngor ysgol leol i drafod ffyrdd mwy diogel i'r ysgol a chroesfan newydd. |
| 16.30: | Cynhadledd yn swyddfa'r arweinydd gyda'r prif weithredwr, pennaeth y gwasanaethau cyfreithiol a rhai o swyddogion eraill y cyngor. |
| 18.00—19.00: | Mynd i'r swyddfa ar gyfer gorchwylion fy mhrif swydd. |

### 14: Dydd Mawrth

| | |
|---|---|
| 9:00 | Cwrdd â dau etholwr a swyddog rheoli adeiladu'r cyngor ynglŷn â mur na fydd y naill gymydog na'r llall yn derbyn cyfrifoldeb am ei gyflwr peryglus. Bydd angen tipyn o amser i ddarllen y ddogfen swmpus sydd wedi'i rhoi i mi. |
| 11.00 - 11.45: | Treulio peth amser yn y swyddfa i gyflawni gorchwylion fy mhrif swydd. |
| 12:00: | Cwrdd â Chyngor y Moslemiaid yn eu mosg i drafod ychwanegu at yr adeilad a materion parcio. |
| 16.00: | Cwrdd â dau etholwr ac un o swyddogion y cyngor i drafod rheoli gwastraff ynglŷn â gadael bagiau plastig ar y stryd ymhell cyn adeg eu casglu, a'r camau y bydd modd i'r cyngor eu cymryd i rwystro pobl rhag gwneud hynny. |
| 18:00 - 20.00: | Cyfarfod pwyllgor rheoli canolfan y gymuned leol. |

### 15: Dydd Mercher

| | |
|---|---|
| 09.00 - 13.30: | Gweithio yn fy swyddfa. |
| 14.00: | Cwrdd â swyddogion adran yr hawliau tramwy i drafod cyfarfod y bydda i'n ei lywio ynglŷn â hawliau o'r fath. |
| 18.00 - 21.00: | Cyfarfod cylch gwleidyddol y fro. A minnau'n ysgrifennydd yno, rhaid paratoi'r cofnodion wedyn, hefyd. |

# Mehefin

## 16 Dydd Iau

| | |
|---|---|
| 09.00 - 10.10: | Cwrdd â swyddog datblygu'r chwaraeon mewn clwb lleol i drafod ymgysylltu â'r gymuned a sefydlu tîm rygbi i ferched. |
| 10.30 - 15.00: | Gweithio yn fy swyddfa. |
| 16.00: | Cwrdd ag etholwr a phennaeth ysgol gynradd leol i drafod bwlio gan nad yw'r rhiant yn fodlon ar y modd mae'r prifathro wedi ymateb i sefyllfa yn yr ysgol. Ar ôl trafod y mater, mae'n ymddangos ei fod wedi'i ddatrys bellach. |
| 19.00: | Achlysur cynnau ffagl y Frenhines. |

## 17: Dydd Gwener

| | |
|---|---|
| 09.00 - 12.00: | Gweithio yn fy swyddfa eto. |
| 13.00 - 16.00: | Cynrychioli'r cyngor yng nghyfarfod pwyllgor ymgynghorol dros fuddsoddi pensiynau. |
| 19.00: | Swper codi arian y maer er lles dwy elusen. |

## 18: Dydd Sadwrn

| | |
|---|---|
| 10.00 - 12.00: | Paratoi cofnodion cyfarfod y cylch gwleidyddol ac anfon yr agenda a'r cofnodion at bawb ar gyfer y cyfarfod nesaf. |
| 13.00: | Cwrdd â thrigolion ardal gadwraeth leol i drafod eu cais am statws lôn pentref. |
| 14.30: | Arddangosfa yn neuadd y dref lle mae arlunydd lleol wedi cyflwyno lluniau o'r fro mewn oes a fu. |

## 19: Dydd Sul

| | |
|---|---|
| Diwrnod rhydd: | Rwy'n ceisio cadw dydd Sul ar gyfer y teulu, ond mae'n anochel na fydd hynny'n digwydd weithiau pan fo rhaid cwrdd ag etholwyr. |

# Wythnos nodweddiadol ym mywyd Cynghorydd (4)

## Medi

### 19: Dydd Llun

Lluniais i ddarn ar gyfer llyfryn newyddion y pentref. Baw cŵn a lluchio sbwriel oedd y prif faterion. Yn ogystal â gwneud gwaith tŷ, fe es i â'r ci am dro. Codais i rywfaint o sbwriel oddi ar y llwybr. Fe fydd rhaid cymryd rhyw fath o gamau ar ôl dychwelyd fel arfer, o ganlyniad i gwrdd â rhywun sydd wedi gofyn am gymorth neu gynghorion. Rhaid gadael y tŷ am 12.30 ar gyfer cyfarfod cydweithredfa gofal iechyd y fro. Taith 68 o filltiroedd. Fe ddes i adref tua 6.30. Dim cyfarfodydd gyda'r nos heno, diolch byth, ond canodd y ffôn sawl gwaith. Mae digon i'w ddarllen yr wythnos yma i baratoi ar gyfer gwrandawiad cŵyn gweithiwr ddydd Iau - yn arbennig yng ngoleuni'r ffaith y bydda i yn y gadair.

### 20: Dydd Mawrth

Rhaid darllen cofnodion eto ar gyfer cyfarfod heno. Dim cyfarfodydd yn ystod y dydd ond y gwaith cartref arferol - mae digon o negeseuon ebost bob amser. Fe es i allan gyda'r ci eto - cyfle i gadw llygad ar y sbwriel yn y fynwent, hefyd. Mae'r contractwr fyddai'n ei glirio fel arfer wedi mynd i'r wal ac, felly, rhaid rhoi'r cytundeb ar gynnig eto. Rwy'n ceisio cadw'r lle'n daclus yn y cyfamser. Llywiais gyfarfod corff llywodraethu'r ysgol arbennig heno. Bydd angen tipyn o waith dilynol bob amser ar ôl cyfarfod o'r fath. Bydda i'n ymdrin â hynny yfory.

### 21: Dydd Mercher

Darllenais i bapurau ar gyfer cyfarfod gweithgor craffu y prynhawn yma. Fe es i allan gyda'r ci yn y bore a siarad â phobl ar y ffordd. Bydda i wastad yn prynu papur newydd yn y siop leol lle bydd cyfle i glywed am unrhyw faterion ddylai fod yn hysbys imi. Mae'n ffynhonnell dda iawn o wybodaeth. Fe es i gyfarfod gweithgor craffu dros faterion oedolion wedyn. Taith 60 o filltiroedd. Fe ddes i adref ar gyfer tamaid sydyn cyn mynd i gyfarfod cyngor y gymuned. Er nad ydw i'n aelod o'r cyngor hwnnw, rwyf i wedi meithrin perthynas dda â'r aelodau ac yn gallu cynnig cymorth a chyfarwyddyd. Bu rhaid neilltuo amser i ddarllen negeseuon rywbryd yn ystod y dydd, hefyd.

## 22: Dydd Iau

Dechreuais yn gynnar heddiw. Rhaid dibynnu ar fy ngŵr i fynd â'r ci am dro. Bydda i'n gadeirydd yn neuadd y sir heddiw yn ystod gwrandawiad cŵyn gweithiwr sydd wedi'i ddiswyddo (60 o filltiroedd, eto). Diwrnod prysur, felly. Rhaid darllen negeseuon ebost rywbryd a mynd ar ôl unrhyw beth sy'n deillio ohonyn nhw, hefyd. Mae'n werth gwneud hynny yn neuadd y sir a gweld unrhyw swyddogion perthnasol yno yn hytrach na chysylltu â nhw trwy ebost. Dim cyfarfod gyda'r nos ond llond diwrnod o waith - gadael y tŷ am 7.45 y bore a dychwelyd am 5.00 y prynhawn.

## 23: Dydd Gwener

Hyfforddiant i gynghorwyr yn neuadd y sir heddiw. Rhaid gadael y tŷ am 8.35 a gyrru 60 o filltiroedd eto (gan deithio gyda chynghorydd arall). Hyfforddiant drwy gydol y dydd - cyflwyniad y bwrdd iechyd lleol yn y bore a materion y gwasanaethau cymdeithasol yn y prynhawn. Rhaid trin a thrafod negeseuon ebost hefyd, wrth gwrs. Rwy'n disgwyl llythyr i'w lofnodi am ganlyniad y gwrandawiad ddoe. Taith adref am damaid cyn mynd i theatr y fro i gyflwyno achlysur gwobrwyau chwaraeon y flwyddyn gan groesawu a diddanu'r noddwyr yno. Cyrhaeddais i'r tŷ am 10.00.

## 24: Dydd Sadwrn

Ymwelais i â gwraig a chanddi broblem ynglŷn â rhifo ei thŷ yn gywir, gan na ches i gyfle i'w gweld yn ystod yr wythnos. Y gobaith oedd mai dim ond am ychydig o funudau y byddwn i yno ond bu angen dwy awr i drafod popeth. Gobeithio y bydd gweddill y dydd yn rhydd.

## 25: Dydd Sul

Diwrnod rhydd (gobeithio) - ar ôl helpu i arwain yr addoli a gweinyddu'r cymun yn yr eglwys.

# Wythnos nodweddiadol ym mywyd Cynghorydd (5)

## Tachwedd

### 14: Dydd Llun

Wythnos brysur iawn. Bydd amser yn brin am fod rhaid mynd i sawl cyfarfod. Felly, rhaid cynllunio ar gyfer hynny. Mae modd gwneud hynny achos fy mod yn gweithio ar fy liwt fy hun. Fel arall, byddai'n anodd iawn.

Ar ôl cludo fy mab hynaf i'r ysgol uwchradd, dychwelais i adref a threfnu i gwrdd ag etholwr am 9:30 er mwyn trafod mentrau cwtogi ar gyflymder cerbydau. Fe ddaeth aelod o'r cabinet a rhai swyddogion rheoli trafnidiaeth i'r cyfarfod, hefyd. Tynnais i luniau o'r sbwriel yn fy mro a'u hanfon i adran rheoli gwastraff y cyngor gan fynnu i'w staff wneud rhywbeth. Fe es i i'r gwaith. Yn y gwaith, bu rhaid neilltuo amser i anfon llythyr i swyddfa Dŵr Cymru am bryderon ynglŷn â chronfa ddŵr leol. Am 4 o'r gloch, fe es i gyfarfod am ddiwygio cronfa cyngor cymuned leol. Dychwelais i'r tŷ a gwneud peth gwaith ar gyfer fy nghwmni fy hun. 7:30 - Es i gyfarfod arferol pwyllgor canolfan y gymuned. Bydd rhaid imi gysylltu â chyngor y gymuned ynglŷn â chamau sydd i'w cymryd. Darllenais i'r papurau ar gyfer cyfarfod cyngor y gymuned yfory.

### 15: Dydd Mawrth

Ar ôl cludo fy mab hynaf i'r ysgol uwchradd am 8.15, dychwelais i adref a gwneud peth gwaith ar gyfer fy nghwmni fy hun. Atebais ymholiadau rhai etholwyr trwy ebost cyn mynd i ysgol gynradd y fro am 10 o'r gloch a helpu i godi sbwriel. Anfonais nifer o luniau am yr ymdrech trwy drydar. Es i'r gwaith ganol dydd. Es i gyfarfod cyngor y gymuned am 6 o'r gloch. Es i gyfarfod cymdeithas y preswylwyr mewn tafarn leol am 7:30. Dychwelais i'r tŷ am 9 o'r gloch a darllen papurau ar gyfer cyfarfod y cyngor yfory.

### 16: Dydd Mercher

Ar ôl cludo fy mab hynaf i'r ysgol uwchradd am 8.15, es i gyfarfod y cyngor am 9 o'r gloch. Diweddarais i'r wefan ac ymateb i negeseuon ebost yno, hefyd. Gadawais i gyfarfod y cyngor am 2 o'r gloch a gweithio yn y swyddfa cyn mynd i ysgol uwchradd lle rwy'n llywodraethwr am 4 o'r gloch i bennu rhestr fer ymgeiswyr ar gyfer cyfweliad. Anfonais i neges i ffatri leol i fynnu'r diweddaraf am fentrau cwtogi ar sŵn. Roeddwn i yn ôl yn y tŷ am 6 o'r gloch, lle gwnes i ragor o waith dros fy nghwmni fy hun.

## 17: Dydd Iau

Bu rhaid i'w fam-gu a'i dad-cu gludo fy mab hynaf i'r ysgol achos bod rhaid imi fynd i gyfarfod pwyllgor ariannol mewn ysgol gynradd leol am 8:30. Cyrhaeddais y swyddfa am 9:45 ar gyfer llond diwrnod o waith yn sgîl ei esgeuluso ychydig dros yr wythnos o achos llawer o gyfarfodydd. Gorffennais am 5 o'r gloch. Yn ystod y dydd, llwyddais i gael digon o amser i anfon manylion i bapur newydd lleol ar gyfer tudalen am yr hyn sy'n digwydd yn y fro.

## 18: Dydd Gwener

**Ar ôl cludo fy mab hynaf i'r ysgol uwchradd am 8.15, tynnais i luniau o garejys y cyngor yn fy ardal am 8:30 ac anfon neges am eu cyflwr. Ymatebais i negeseuon oddi wrth etholwyr cyn gweithio dros fy nghwmni fy hun rhwng 9 a 5 o'r gloch. Es i glwb ifainc y fro ar gyfer gwaith gwirfoddol (bob wythnos yn ystod tymor yr ysgol) rhwng 6.30 ac 8 o'r gloch. Es i'r dafarn am beint gyda ffrindiau wedyn.**

## 19: Dydd Sadwrn

Es i am dro o gwmpas cronfa ddŵr leol i dynnu lluniau o broblemau mae angen eu datrys a'u hanfon i swyddfa Dŵr Cymru. Llenwais ffurflenni asesu ar gyfer pedwar gweithiwr gwirfoddol sy'n ein helpu yng nghlwb ifainc y fro yn rhan o Gynllun Dug Caeredin. Fe wnes i ychydig o waith yn yr ardd.

## 20: Dydd Sul

**Bu rhaid cludo un mab i chwaraeon a'r llall i wers nofio. Cyfle i ymlacio ar ôl cinio cyn diweddaru'r wefan rwy'n ei defnyddio i roi'r diweddaraf i drigolion y fro.**

# 8. A fydda i'n cael fy nhalu?

**Mae gennych yr hawl i gael cyflog am eich ymrwymiad a'ch cyfraniad. Mae cynghorwyr ar bob lefel yn ymgymryd â rôl heriol ac anodd. Gall effeithio ar eu gyrfaoedd proffesiynol a'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Felly, mae'n synhwyrol cydnabod cynghorwyr yn briodol a rhoi tâl iddyn nhw am eu cyfraniad hanfodol a gwerthfawr at fywyd cyhoeddus.**

Bydd pob cynghorydd yn cael cyflog sylfaenol. Gall hyn newid bob blwyddyn. £13,300 yw'r cyflog yn 2016-17. Mae cynghorwyr yn cael hawlio lwfans teithio hefyd, a gall y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu gael lwfans gofal ychwanegol hefyd o £403 y mis. Gallwch hefyd hawlio eich cyflog sylfaenol pan fyddwch yn cymryd absenoldeb teuluol fel absenoldeb rhiant.

Bydd cyflog ychwanegol i'r rhai sy'n cyflawni cyfrifoldebau e.e aelod o'r cabinet, cadeirydd pwyllgor neu arweinydd eu grŵp gwleidyddol yn y cyngor. Bydd y cyflog ychwanegol yma yn dibynnu ar faint yr awdurdod a'r rôl o dan sylw.

Nid y cynghorwyr sy'n penderfynu faint maen nhw'n cael eu talu; Panel Annibynnol Cymru dros Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n pennu cyflogau cynghorwyr. Nodir faint sy'n cael ei dalu i gynghorwyr yn eu hadroddiad blynyddol.

Cewch wybod rhagor yma.

Bydd y cyngor yn cyhoeddi manylion eich cyflog ac unrhyw lwfansau a gewch chi ar eu gwefan.



# 9. Rheolau a rheoliadau i gynghorwyr

**Mae disgwyl i bob cynghorydd gynnal y safonau ymddygiad uchaf. Mae angen i'r cyhoedd ddisgwyl a theimlo'n hyderus eich bod yn ymddwyn yn ddi-fai.**

Mae cynghorwyr yn gorfod cadw at **Gôd Ymddygiad** sy'n amlinellu'r ymddygiad a ddisgwylir ganddyn nhw; mae'r côd yn berthnasol i gynghorwyr wrth eu gwaith neu pan maen nhw'n gweithio yn rhinwedd eu swyddi yn ôl pob golwg. Mwy neu lai drwy'r amser, felly.

Yn ôl y Côd, mae angen i chi:

- Weithredu er budd y cyhoedd yn unig - nid er eich lles eich hun na neb arall
- Bod yn onest a datgan unrhyw fuddiannau sydd gennych
- Ymddwyn yn foesol a pheidio â chael eich dylanwadu gan unigolion neu gyrff eraill er eu lles nhw
- Cadw o fewn y gyfraith
- Defnyddio adnoddau'r awdurdod yn gyfreithlon ac yn gall
- Dod i benderfyniad ar sail rhinwedd bob amser, gan ddefnyddio'r holl wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael
- Parchu eraill bob amser ni waeth pwy ydyn nhw na beth fo'u barn
- Bod mor agored â phosibl am beth ydych chi a'r cyngor yn ei wneud
- Bod yn barod i'r cyhoedd graffu ar yr hyn yr ydych yn ei wneud
- Arwain eraill drwy esiampl ac ymddwyn mewn modd sy'n adlewyrchu'n dda ar y cyngor yn nhyb y cyhoedd a'r swyddogion

Mae modd cyfeirio achosion o dorri'r Côd yma at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gallech orfod ymddiheuro'n ffurfiol, mynd ar gwrs hyfforddiant neu gael eich atal rhag bod yn gynghorydd dros dro neu'n barhaol. Mae disgwyl i gynghorwyr gytuno'n ffurfiol i gadw at y Côd wrth ymgymryd â'u rôl ar ôl cael eu hethol. Mae'r Côd Ymddygiad Enghreifftiol ar gael yn llawn yma.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi egwyddorion i gyfeirio'r modd y dylai pob gwasanaeth cyhoeddus weithio:

- anelu at y pen draw
- tyfu a gwella drwy'r amser
- gweithio ar y cyd
- parchu pawb
- blaenoriaethu buddiannau'r dinasyddion

Dyma ragor o wybodaeth.

# 10.Beth yw gwaith swyddogion y cyngor?

**Diben y swyddogion yw rheoli gwaith y cyngor a helpu cynghorwyr i roi eu polisïau ar waith.** Mae rhai swyddi yn y cyngor yn statudol, er enghraifft Pennaeth y Gwasanaeth Taledig (sydd hefyd yn cael ei alw'n Brif Weithredwr neu'n Rheolwr Gyfarwyddwr), Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am gywirdeb ariannol (y Cyfarwyddwr Arian, fel arfer), a'r Swyddog Monitro sy'n gofalu bod y cyngor yn gweithredu'n gyfreithiol. Mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn cydweithio'n agos â phob cynghorydd ac yn gofalu bod y cynghorwyr a'r pwyllgorau'n cael cymorth priodol.

Mae swyddogion yn weithwyr proffesiynol sy'n arbenigo yn eu maes. Maen nhw'n wleidyddol niwtral ac mae dyletswydd arnyn nhw i roi cyngor diduedd i'ch helpu i ddod i benderfyniadau cywir. Felly, mae'n bwysig meithrin perthynas broffesiynol gadarnhaol gyda nhw a pharchu eu dealltwriaeth a'u profiad, hyd yn oed os nad ydych bob amser yn cytuno â nhw.



# 11.Sut caiff cynghorwyr eu cefnogi yn eu gwaith?

**Ar ôl cael eich ethol yn gynghorydd am y tro cyntaf, bydd yn cymryd peth amser i chi ddeall beth yw gwaith y cyngor a diben eich rôl.** Bydd angen i chi geisio ymdopi â'r holl ddeddfau, rheolau, polisïau a gweithdrefnau hefyd. Bydd y rhai sydd wedi eich ethol yn disgwyl llawer gan eu cynghorydd lleol o'r cychwyn cyntaf.

Bydd pob cyngor yn cynnal rhaglen ymgyfarwyddo i ddangos i chi sut mae'r cyngor yn gweithio, a phwy ydy pwy. Cewch wedyn raglen ymsefydlu i'ch helpu i ddeall eich rôl, gweithdrefnau'r cyngor, a'r sgiliau ymarferol y bydd arnoch eu hangen e.e. i gadeirio cyfarfod neu gymryd rhan mewn cyfweliad ar y radio.

Cewch eich cefnogi'n llawn gyda'ch dyletswyddau bob dydd yn ogystal â hyfforddiant i'ch helpu i ddeall materion cymhleth. Bydd disgwyl i chi gael cryn dipyn o hyfforddiant ar ôl cael eich ethol a thrwy gydol eich cyfnod yn y swydd. Darperir rhywfaint o hyfforddiant i bob cynghorydd, yn ogystal â rhaglenni eraill i ddiwallu anghenion penodol. Gan amlaf, caiff yr anghenion yma eu nodi mewn adolygiad o'ch datblygiad personol. Cynghorwyr neu swyddogion blaenllaw sy'n eu cynnal i weld pa sgiliau sydd gennych eisoes a lle gallai fod angen rhywfaint o help arnoch.



**DEDDFAU**

**RHEOLAU**

**POLISÏAU**

**GWEITHDREFNAU**

"Ers mynd yn gynghorydd sirol, rwyf i wedi cael dau o blant ac mae cyngor y sir wedi rhoi pob cymorth imi gyfuno gwaith cynghorydd â chyfrifoldebau magu plant. Mae gwaith cynghorydd yn orchwyl ymestynnol, amryfal a diddorol sy'n gallu rhoi llawer o foddhad. Dyma annog pawb a chanddo ddiddordeb mewn cymunedau, pobl a bod yn weithgar i ystyried bod yn ymgeisydd yn ei fro."



# 12.Sut gallaf fod yn gynghorydd?

**Gall bron unrhyw un fod yn gynghorydd, ac mae'n bwysig dros ben bod pobl o bob lliw a llun yn cael eu hethol i gynrychioli gwahanol gymunedau**



Mwy o bobl o dan 40 oed, menywod, pobl anabl, hoywon, lesbiaid, trawsrywolion, pobl Dduon neu Asiaidd, yn ogystal â phobl o ystod o gredoau, diwylliannau ac amgylchiadau personol, sydd eu hangen ar fyd llywodraeth leol. Yn syml, mae angen mwy o gynghorwyr sydd mor amrywiol â'r cymunedau y maen nhw'n eu cynrychioli. Gallech fod yn gweithio, yn ddi-waith neu'n cael addysg.

Mae Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol ac WLGA yn cydweithio i ehangu’r amrywiaeth ymhlith cynghorwyr. Mae rhaglen Amrywioldeb mewn Democratiaeth wedi cynnig gwybodaeth, cymorth a hyfforddiant i garfanau sydd heb eu cynrychioli’n llawn i’w galluogi nhw i gymryd rhan mewn etholiadau. Dyma ragor o wybodaeth am y rhaglen, agor yma.



Yn ôl yr unig reolau ynghylch pwy all fod yn gynghorydd:

**Rhaid i chi fod o leiaf 18 oed ar ddiwrnod eich enwebiad, yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad neu'n ddinesydd o unrhyw aelod wladwriaeth arall yn Undeb Ewrop.**

**YN OGYSTAL, bydd angen i chi fodloni o leiaf un o'r canlynol:**

1. Rydych chi'n etholwr cofrestredig yn ardal yr awdurdod lleol yr ydych yn ymgeisydd ynddi o ddiwrnod eich enwebiad, a byddwch yn parhau i fod yn gofrestredig yno.

2. Rydych wedi meddiannu tir neu unrhyw eiddo arall, boed fel perchennog neu denant, yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod y 12 mis llawn cyn diwrnod eich enwebiad a diwrnod yr etholiad.

3. Mae eich prif weithle neu eich unig weithle yn ystod y 12 mis cyn diwrnod eich enwebiad a diwrnod yr etholiad, wedi bod yn ardal yr awdurdod lleol.

4. Rydych wedi byw yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod y 12 mis llawn cyn diwrnod eich enwebiad a diwrnod yr etholiad.

**Fodd bynnag, ni chewch fod yn gynghorydd:**

1. Os ydych yn cael eich cyflogi gan yr awdurdod lleol yr ydych yn ymgeisydd ar ei gyfer neu'n cael eich talu i wneud swydd o dan yr awdurdod (gan gynnwys cyd-fyrddau neu bwyllgorau). Gallech fod yn 'cael eich cyflogi gan yr awdurdod' os ydych yn gweithio i rai ysgolion neu mewn gwasanaethau tân ac achub. Awgrymwn i chi gysylltu â'ch adran adnoddau dynol i weld a ydych yn cael bod yn gynghorydd ai peidio. Cewch wybod rhagor ar wefan y Comisiwn Etholiadol hefyd (mae'r ddolen isod).

2. Os ydych mewn swydd sydd wedi'i chyfyngu'n wleidyddol (e.e. os ydych yn Brif Weithredwr, yn uwch-swyddog neu'n swyddog mewn cyngor, gan fod cynghori cynghorwyr yn rhan o'ch swydd – cewch ragor o fanylion gan eich cyngor).

3. Os ydych yn gorfod cadw at gyfyngiadau gorchymyn methdaliad neu orchymyn dros dro, neu gyfyngiadau gorchymyn rhyddhau dyledion neu orchymyn dros dro.

4. Os ydych wedi cael eich dedfrydu i dri mis neu fwy o garchar (gan gynnwys dedfryd ohiriedig) heb gael y dewis o dalu dirwy, hyd at bum mlynedd cyn y diwrnod pleidleisio.

5. Os ydych wedi eich gwahardd o dan Ddeddf Cynrychioli Pobl 1983 (sy'n cynnwys arferion etholiadol llwgr neu anghyfreithlon a throseddau sy'n ymwneud â rhoddion).

Gallech hefyd gael eich gwahardd rhag bod yn gynghorydd os ydych wedi eich gwahardd rhag bod yn ymgeisydd mewn etholiad yn dilyn penderfyniad gan Banel Dyfarnu Annibynnol Cymru.

Cewch wybod am hyn a rhagor o wybodaeth ar wefan y Comisiwn Etholiadol, agor yma.

**Gallwch fod yn ymgeisydd annibynnol neu gallwch fod yn ymgeisydd ar ran cylch/plaid wleidyddol.** Os ydych yn aelod o blaid, yn bwriadu ymuno ag un neu am fod yn ymgeisydd ar ei rhan, bydd eu hasiantau'n gweithio i chi. Os ydych yn ymgeisydd annibynnol bydd angen i chi ofyn am gyngor gan wahanol asiantaethau.

**Cewch ragor o fanylion am y prif bleidiau gwleidyddol yma:**

**Ceidwadwyr Cymreig**
[www.welshconservatives.com/](www.welshconservatives.com/)
**Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**
[www.demrhyddcymru.cymru/](www.demrhyddcymru.cymru/)
**Llafur Cymru**
[http://www.welshlabour.wales/](http://www.welshlabour.wales/)
**Plaid Cymru**
[https://www.plaid.cymru/](https://www.plaid.cymru/)
**Plaid Werdd Cymru**
[www.walesgreenparty.org.uk/](www.walesgreenparty.org.uk/)
**UKIP yng Nghymru**
[www.ukip.wales/](www.ukip.wales/)

Os hoffech gael gwybod rhagor am rôl cynghorwyr annibynnol, mae gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Lloegr, gylch ar gyfer cynghorwyr annibynnol.

Cliciwch yma i gael gwybod mwy.


**Ewch i wefan y Comisiwn Etholiadol drwy glicio yma, i weld rhestr lawn o'r pleidiau gwleidyddol cofrestredig a'r holl wybodaeth fydd arnoch ei hangen fel ymgeisydd. h.y.**

- bod yn ymgeisydd
- ymgyrchu
- derbyn rhoddion
- gwario arian
- eich hawliau fel ymgeisydd, gan gynnwys cael gafael ar weithdrefnau etholiadol
- adrodd yn ôl wedi'r etholiad

Os ydych yn cefnogi plaid wleidyddol, maen nhw'n chwilio am bobl sydd â diddordeb yn eu cynrychioli. Peidiwch â phoeni os nad ydych yn aelod o blaid eto. Maen nhw'n gallu trafod y dewisiadau sydd ar gael i chi.

Wrth i etholiad mis Mai 2017 agosáu, cofiwch wneud yn siŵr eich bod wedi cael eich enwebu'n swyddogol os oes plaid wedi eich dewis i fod yn ymgeisydd, neu os ydych am fod yn ymgeisydd annibynnol. Mae hynny'n golygu llenwi papur enwebu gyda llofnod 10 o etholwyr cofrestredig yn yr etholaeth yr rydych am ei chynrychioli. Cysylltwch ag adran gwasanaethau etholiadol eich cyngor lleol i gael y papurau yma. Rhaid i chi hefyd gadarnhau'n ysgrifenedig eich bod yn caniatáu'r enwebiad.

Os ydych yn ymgeisydd ar gyfer plaid wleidyddol gofrestredig, rhaid i chi hefyd gyflwyno tystysgrif gan swyddog enwebu'r blaid, i gadarnhau bod hawl gennych i ddefnyddio disgrifiad a logo'r blaid. Os ydych yn ymgeisydd annibynnol, ni chewch ddisgrifio eich hun fel unrhyw beth ar wahân i 'annibynnol'.



# Nodiadau:

Example Local Authority Councillor year long induction programme showing potential integration of mandatory training and availability of training resources.

| What | Audience | Delivery Method | Training materials available/needed? | When |
|---|---|---|---|---|
| Orientation (Council offices and county facilities) | All members | Tour | Information/ maps etc as part of introductory package produced in each authority | Week One |
| Introduction to the Council, its role and introduction to corporate governance. | All members | Chief Executive | To be developed by staff locally and some information to be linked to WLGA councillors guide | Week One |
| **ICT induction and equipment** | **All members (M)** | ICT officers, individual sessions on market place day. | Session and guidance to be developed by staff locally | Market Place week one |
| Introduction to service areas | All members | Market place, all senior officers | Delivery materials not required – basic information to be included in introductory package, who's who etc. | Market Place week one |
| **Code of Conduct and Ethics** | **All members(M)** | Monitoring Officer –national materials? 3 sessions on Market place day | National materials if required at local workshop. WLGA/monitoring officers/Ombudsman (ombudsman video in production) | Market Place week one |
| **Constitutional matters including meeting participation** | **All members(M)** | HODS/DS officers/senior member | Materials available now in each authority | 1st 6 Months |
| **Decisions for Future Generations (Wellbeing of Future Generations Act)** | **All Members(M)** | Workshop - Appropriate senior officers and experienced members. And e learning | National workshop?<br>E learning available now on AWA | 1st 6 months |
| **Introduction to equalities** | **All members(M)** | Equalities Officers workshop and e- learning | Available now on AWA e- learning (Governors module) and workshop materials available in each authority. | 1st 6 Months |
| **Safeguarding** | **All members(M)** | Directors of Education/SS workshop and e learning | Available now on e-learning (AWA) (Employee section) workshop materials are available in each authority | 1st 6 Months |
| **Data Management and FOI** | **All members(M)** | Workshop and e learning | 2 modules available now on AWA employees section - Data Protection Awareness and Freedom of Information | 1st 6 Months |



Atodiad 2 / Appendix 2

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Corporate Parenting** | **All members(M)** | Directors of SS | Workshop material available now in each authority. Is e learning also required? | 1st 6 Months |
| **Finance including budgeting and treasury management** | **All members(M)** | Finance Directors<br>e- learning | Workshop material available now in each authority.<br>E learning required | 1st 6 Months |
| **Planning committee** | **Planning Committee(M)** | Planning Officer | Workshop material available now in each authority | Prior to first meeting |
| **Standards** | **Standards Committee(M)** | Monitoring Officer | Workshop material available now in each authority | Prior to first meeting |
| **Licensing** | **Licensing Committee(M)** | Licensing Officer | Workshop material available now in each authority | Prior to first meeting |
| **Audit** | **Audit Committee(M)** | Finance Officer | Workshop material available now in each authority | Prior to first meeting |
| **Appointments, appeals and interview skills** | **Panel members(M)** | HR Director | Workshop material available now in each authority | Prior to participating |
| **The role of Scrutiny** | **All members(M)** | HODS/Scrutiny officers | Workshop material available now in each authority | Prior to first scrutiny meetings |
| **Planning for non- planning members - protocols** | **All members (M)** | Planning officers/experienced member | Workshop material available now in each authority | Ist 6 months |
| Community Leadership and Casework | All members | Senior member with HODS<br>e- learning | The effective ward councillor e learning module in production for AWA. | 2nd 6 Months |
| New Cabinet Development | Cabinet | External facilitators | Materials from external facilitators | 2nd 6 Months |
| Policy, services and legislative requirements updates | Relevant committees | Heads of Service | By local staff as and when necessary National Welsh Government Workshops? | 2nd 6 Months and into main training programme |
| Scrutiny chairing (committee and meeting management) | All Scrutiny chairs | External facilitators | Materials from external facilitators | 2nd 6 Months |
| Chairing Skills (meeting management) | All chairs | External facilitators<br>E learning | E learning available now on AWA | 2nd 6 Months |

**(M) = Mandatory**

**Further training in both knowledge and skills to be determined from PDRs when induction complete**

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

**Dyddiad y Cyfarfod:** 1 Gorffennaf 2016

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd Barbara Smith

**Awdur yr Adroddiad:** Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, Adnoddau Dynol a Democrataidd

**Teitl:** Presenoldeb Aelodau

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r ffyrdd y gellir gwneud newidiadau i'r trefniadau sy'n ymwneud â phwyllgorau er mwyn ceisio gwella presenoldeb Aelodau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I alluogi Aelodau i ystyried gwahanol opsiynau sydd ar gael ar gyfer y trefniadau ar gyfer pwyllgorau er mwyn galluogi lefelau cyson da o bresenoldeb.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried a rhoi sylwadau ar yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer y trefniadau ar gyfer pwyllgorau.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Mae pryder wedi'i fynegi gan rai aelodau etholedig, y Prif Weithredwr a rheoleiddwyr allanol am lefelau presenoldeb Aelodau mewn pwyllgorau ffurfiol y Cyngor.

4.2 Mae'r mater wedi ei godi gydag Arweinwyr Grŵp a bu gwelliant mewn lefelau presenoldeb yn y misoedd diwethaf.

4.3 Fodd bynnag, mae'r aelodau wedi mynegi nifer o rwystredigaethau ynghylch y mater. Mae llawer o Aelodau yn gweithio neu â chyfrifoldebau gofalu ac o ganlyniad nid ydynt bob amser ar gael ar gyfer pob cyfarfod. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o aelodau hefyd yn gysylltiedig â sefydliadau cymunedol eraill gan gynnwys Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned, efallai y bydd eu busnes weithiau yn ei gwneud yn anodd mynychu cyfarfodydd pwyllgorau cyngor.

4.4 Wrth ystyried newidiadau i'r cyfansoddiad, mae swyddogion wedi rhoi sylw i ba mor ddymunol fyddai ei gwneud yn haws i Aelodau fynychu cyfarfodydd.

4.5 Mae rhai dulliau cyfansoddiadol y gellir eu tynnu i geisio effeithio ar bresenoldeb.

Mae'r rhain yn cynnwys:

Cael gwared ar y rhwystr ar Aelodau Llywodraethu Corfforaethol rhag bod yn aelodau o unrhyw un o'r Pwyllgorau Archwilio.

Mae rhwystr ar aelodau'r Pwyllgor hwn rhag bod yn aelodau o Bwyllgor Archwilio ar hyn o bryd. Gall y rhwystr hwn achosi anawsterau i rai grwpiau gwleidyddol. Ni chaiff aelodau'r Cabinet yn ôl y gyfraith fod yn aelodau o Bwyllgorau Archwilio. Mae hyn yn golygu ar gyfer grwpiau ag aelodau ar y Cabinet gall fod yn anodd i lenwi eu holl ddyraniad o seddi Archwilio yn enwedig pan fydd ganddynt aelod neu aelodau ar Lywodraethu Corfforaethol sydd hefyd yn cael eu hatal rhag bod ar Bwyllgor Archwilio. Gall hyn olygu bod rhai Aelodau ar bwyllgorau lluosog, ac weithiau yn ei chael yn anodd mynychu pob un mor rheolaidd ag y byddent yn hoffi. Cynigir bod y rhwystr hwn yn cael ei ddileu yn y fersiwn newydd o'r Cyfansoddiad.

Caniatáu i'r Is-gadeirydd fod ar Bwyllgorau heblaw Llywodraethu Corfforaethol

Ar hyn o bryd mae'r Cyfansoddiad yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i Is-gadeirydd y Cyngor fod yn aelod o Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Yn dibynnu ar faint y grŵp y mae'r Is-Gadeirydd yn dod ohono gall hyn achosi anawsterau tebyg i'r rhai a ddisgrifir uchod. Yn ogystal, yn aml mae gan yr Is-gadeirydd ymrwymiadau dinesig i ymgymryd â hwy a allai wrthdaro â chyfarfodydd pwyllgor. Mae maint y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, chwe Aelod etholedig yn ogystal ag aelod lleyg, yn golygu bod absenoldeb Aelod fel Is-Gadeirydd yn cael effaith anghymesur ar lefel presenoldeb y Pwyllgor ac mae mwy o berygl o fod heb gworwm.

Bwriedir dileu'r gofyniad hwn yn y Cyfansoddiad er mwyn i'r Is-gadeirydd allu eistedd ar unrhyw bwyllgor.

Caniatáu dirprwyon mewn cyfarfodydd pwyllgorau

Ar hyn o bryd nid yw'r Cyfansoddiad yn caniatáu ar gyfer dirprwyon yn y rhan fwyaf o bwyllgorau oni bai ei fod i gwmpasu absenoldeb hirdymor oherwydd salwch. Byddai gweithdrefn i ganiatáu dirprwyon yn caniatáu i Aelodau gynrychioli ar gyfer ei gilydd, ond gall achosi biwrocratiaeth ychwanegol ac mae angen i grwpiau fod yn eithaf trefnus. Byddai Gwasanaethau Democrataidd angen ffurflenni cymeradwyaeth wedi'u llofnodi gan grwpiau ar gyfer pob dirprwy. Gallai hefyd arwain at ddiffyg parhad mewn pwyllgorau gydag aelodaeth yn newid yn gyson. Am y rhesymau hyn ni chynigir bod y trefniadau presennol yn cael eu newid yn y Cyfansoddiad.

Newid nifer yr aelodau ar bob pwyllgor

Gallai nifer y seddau ar bob Pwyllgor Archwilio gael ei leihau, gan leihau'r cworwm. Ar hyn o bryd mae gennym 11 ar bob Pwyllgor gan roi cworwm o 5. Er mwyn lleihau'r cworwm i 4 byddai angen i ni gael pwyllgorau o 9 ac i gael y cworwm i 3, pwyllgorau o 7. Gall hyn swnio'n ddeniadol, ond os ydym yn gweddarlledu cyfarfodydd Archwilio sydd â dim ond 3 Aelod yn eistedd o amgylch y bwrdd, er bod cworwm, efallai na fydd yn rhoi argraff dda. Felly nid oes unrhyw gynnig i newid y rhifau hyn yn y Cyfansoddiad.

Newid y ffigur cworwm ar gyfer pob pwyllgor.

Gallem gadw'r aelodaeth yr un fath a lleihau'r cworwm i chwarter neu i ffigur penodol. Gall hyn atal cyfarfodydd heb gworwm ond nid yw o reidrwydd yn gwella presenoldeb. Nid oes unrhyw awgrym y dylai'r trefniadau presennol newid yn y Cyfansoddiad.

Lleihau maint y Pwyllgor Cynllunio

Mae ein Pwyllgor Cynllunio yn fawr iawn o'i gymharu â'r rhan fwyaf ac mae dwbl maint rhai. Os byddwn yn lleihau'r maint i tua 15 byddem yn rhyddhau nifer sylweddol o Aelodau. Nid yw hyn yn rhywbeth a ystyriwyd yn yr adolygiad presennol o'r Cyfansoddiad ond gellir ei ystyried yn y dyfodol ac efallai y bydd ei angen gan ddeddfwriaeth.

Newid amseriad a lleoliad cyfarfodydd

Mae grŵp gorchwyl a gorffen o Aelodau wedi ei sefydlu a fydd yn cynnal ei gyfarfod cyntaf yn gynnar ym mis Gorffennaf. Bydd y grŵp hwn yn edrych ar pa, os o gwbl, drefniadau eraill all gael eu gwneud ynghylch amseriad neu leoliad y cyfarfodydd i'w gwneud yn haws i rai aelodau fynychu. Bydd canlyniadau'r grŵp hwn yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y flaenoriaeth o foderneiddio'r Cyngor.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AoEaG wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae'r materion sy'n ymwneud â phresenoldeb wedi eu trafod gydag Arweinwyr Grŵp. Mae agweddau Cyfansoddiadol nifer o'r materion yn yr

adroddiad hwn wedi eu hystyried gan y Gweithgor Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oedd angen datganiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae risg os na fyddwn yn cymryd camau sy'n hwyluso presenoldeb Aelodau y gallai rhai cyfarfodydd fod heb gworwm gan arwain at oedi wrth wneud penderfyniadau a niwed i enw da.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

11.1 Nid oes angen penderfyniad.

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 1 Gorffennaf 2016 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Steve Price |
| **Teitl:** | Cofnodion Arddull Sir Ddinbych |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â chofnodion 'arddull fewnol' y Cyngor ar gyfer cofnodi ei fusnes pwyllgor ffurfiol a'r awgrymiadau a wneir gan nifer o gynghorwyr i newid yr arddull a'r cynnwys.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Roedd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys yr eitem hon ar ei raglen gwaith i'r dyfodol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried adroddiad a sylwadau ar yr arddull a'r cynnwys priodol ar gyfer cofnodi cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor a phwyllgorau.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae gan y Cyngor 'arddull mewnol' cytûn ar gyfer cofnodion a adolygwyd yn 2010 gan Fwrdd Rhaglen Trefniadau Democrataidd (a oedd yn cynnwys yr Arweinydd ac Arweinwyr Grŵp neu eu dirprwyon) a oedd yn ystyried argymhellion ar arddulliau ysgrifennu cofnodion a gyflwynwyd gan Aelod ar y cyd / gweithgor Swyddogion. Yna, cafodd y casgliadau eu dosbarthu i'r holl Grwpiau, ac ni chafwyd unrhyw sylwadau. Cytunwyd ar arddull y cofnodion i ddilyn yr egwyddorion hyn:

- Rhaid i gofnodion gael eu hysgrifennu mewn ffordd glir a chryno, heb ddefnyddio terminoleg rhy gymhleth a defnyddio Cymraeg / Saesneg clir
- Bydd cofnodion yn canolbwyntio ar y prif bwyntiau a godwyd yn y cyfarfod sy'n fod yn berthnasol i'r eitem dan sylw, ac i'r penderfyniad neu'r argymhelliad sy'n cael ei wneud.
- Ni fydd y cofnodion fel arfer yn cynnwys unrhyw faterion achlysurol a godir, a disgwylir i hyn arwain at ostyngiad yn hyd y cofnodion. Y manteision disgwyliedig yw cofnodion sy'n haws i'w darllen a llai costus i'w cynhyrchu. (Bydd Cofnodion y Panel Mabwysiadu a Maethu a cheisiadau trwyddedu ac adolygiadau yn parhau i gael eu cofnodi'n gynhwysfawr).

- Bydd modd i aelodau sicrhau y caiff sylw ei gofnodi a'i briodoli iddynt ar gais mewn unrhyw gyfarfod.

4.2 Rhan o bwrpas adolygu arddull a chynnwys cofnodion oedd sicrhau cofnodion o safon uchel, ond hefyd i gyd-fynd â'r llwyth gwaith o gynhyrchu cofnodion gyda'r adnoddau sydd ar gael oherwydd i nifer o swyddi gweinyddwr pwyllgorau gael eu dileu yn 2010. Dyma'r sefyllfa a'r arddull mewnol hyd heddiw.

4.3 Ar sawl achlysur, mae cynghorwyr wedi herio cynnwys cofnodion cyfarfodydd cyhoeddus o ran eu cyfraniadau, naill ai heb gael eu cofnodi neu ddim yn cael eu priodoli iddynt. Mae'n amlwg y byddai rhai o aelodaeth y Cyngor yn hoffi gweld y cofnodion yn cael eu hymestyn, gyda chyfraniadau aelodau unigol yn cael eu cofnodi a'u priodoli iddynt.

4.4 I gydbwyso'r safbwynt hwnnw, mae yna hefyd resymau dros grynhoi cofnodion y Cyngor a chyfarfodydd pwyllgor. Awdurdod yn y maes hwn yw *Knowles on Local Authority Meetings: A Manual of law and practice* sy'n datgan:

*"Gellir cadw cofnodion yn fyr drwy fod yn ddetholgar: nid yw cofnod yn gofnod gair am air, ond yn grynodeb o'r trafodion sy'n cynnwys dim ond hanfod y drafodaeth - nid hynny bob amser – a'r penderfyniad. Anaml iawn y bydd angen atgynhyrchu, waeth pa mor gryno, yr hyn a ddywedodd siaradwr penodol; ond mae'n ddefnyddiol, fel rheol, i godi prif bwyntiau'r drafodaeth a arweiniodd at y casgliad: yn wir, mae yna berygl o ran cofnodi cyfraniadau unigol gan ei bod yn debygol y byddai'r holl aelodau am gael yr un driniaeth."*

4.5 Mae cofnodi cyfraniadau unigol hefyd yn peri risg o greu heriau i gywiro cofnodion, wrth i unigolyn geisio gwella neu ymbellhau oddi wrth sylw a gaiff ei gofnodi'n gywir.

4.6 Drwy we-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor Cynllunio, gall aelodau a'r cyhoedd bellach wylio cyfarfodydd a chyfraniadau unigol yn llawn drostyn nhw eu hunain ar wefan y Cyngor, ac efallai y caiff hyn ei ymestyn i gyfarfodydd eraill y Cyngor maes o law.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Dim cyfraniad uniongyrchol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd maint a chymhlethdod yr arddull cymryd cofnodion yn cael effaith uniongyrchol ar yr amser angenrheidiol i'w cynhyrchu ac o bosibl ar y nifer o weinyddwyr pwyllgor a fyddai'n angenrheidiol i gynnal y system bwyllgorau.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

Ni nodwyd unrhyw effaith ar gydraddoldeb.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Cynhaliwyd trafodaeth ar arddull cofnodion yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn, y Pwyllgor Cynllunio, gydag Arweinwyr Grwpiau, a chafodd gwybodaeth am yr arddull mewnol presennol ei dosbarthu i'r holl aelodau.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oedd angen datganiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r cofnodion yn ofyniad statudol pwysig ac mae angen i'r arddull a'r cynnwys fod yn gyfreithiol briodol a derbyniadwy i aelodau.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag